

Pwyslais yr adroddiad

Y cyntaf mewn cyfres o adroddiadau sy'n ceisio datblygu proffil o deuluoedd mewn achosion cyfraith breifat, a'u llwybrau a'u canlyniadau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adroddiad presennol yn datblygu proffil demograffig o'r teuluoedd sy'n gysylltiedig yng Nghymru, gan gynnwys lefelau amddifadedd, patrymau'r gorchmynion y gwneir cais amdanynt, a chyfran y ceisiadau ailadroddus.

Awduron

Linda Cusworth
Stuart Bedston
Liz Trinder
Karen Broadhurst
Becky Pattinson
Rhodri D. Johnson
Bachar Alrouh
Stefanie Doeblen
Ashley Akbari
Alex Lee
Lucy J. Griffiths
David Ford

Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?



Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr. Mae'n defnyddio data lefel poblogaeth i archwilio tueddiadau yn y galw, gan ddatblygu proffil demograffig o'r teuluoedd sy'n gysylltiedig a phatrymau'r gorchmynion y gwneir cais amdanynt. Mae hefyd yn darparu tystiolaeth newydd ynglŷn â chyfran y ceisiadau ailadroddus trwy archwilio patrwm y ffenomen hon ar sail rhywedd am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ac ysgrifennwyd yr adroddiad gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, a ariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – ar y cyd â'r Athro Liz Trinder, Prifysgol Caerwysg.

Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael o www.nuffieldfjo.org

Cyfeiriad argymelledig: Cusworth, L. et al. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Mae'r data a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe yn y Deyrnas Unedig, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae pob cynnig i ddefnyddio'r data hwn yn destun adolygiad a chymeradwyaeth gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, sef Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cael mynediad at ddata ddilyn y canllawiau ymgeisio sydd ar gael yn The data used in this study is available from the Secure Anonymised Information Linkage (SAIL) Databank at Swansea University: <https://saildatabank.com/application-process/?lang=cy>.

Awduron

Dyma awduron yr adroddiad:

- Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn
- Dr Stuart Bedston, Prifysgol Caerhirfryn
- Yr Athro Liz Trinder, Prifysgol Caerwysg
- Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn
- Dr Becky Pattinson, Prifysgol Caerhirfryn
- Rhodri D. Johnson, Prifysgol Abertawe
- Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn
- Dr Stefanie Doeblér, Prifysgol Caerhirfryn
- Ashley Akbari, Prifysgol Abertawe
- Alex Lee, Prifysgol Abertawe
- Dr Lucy J. Griffiths, Prifysgol Abertawe
- Yr Athro David Ford, Prifysgol Abertawe.

Hoffai'r awduron ddiolch i aelodau eraill y tîm sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol, gan gynnwys yr Athro Judith Harwin (Prifysgol Caerhirfryn), yr Athro Kerina Jones, Jon Smart a Simon Thompson (Prifysgol Abertawe).

Hoffem ddiolch hefyd i'r canlynol am eu cymorth gyda'r prosiect hwn: Lisa Harker, Cyfarwyddwr, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield; Beth Altman, Nigel Brown a Matthew Pinnell, Cafcass Cymru; Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru; a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, hoffai'r awduron ddiolch i'r adolygwyr allanol canlynol am eu sylwadau ar fersiynau o'r adroddiad hwn: Dr Tina Haux, Prifysgol Caint; yr Athro Katherine Shelton, Prifysgol Caerdydd; Dr Julie Doughty, Prifysgol Caerdydd;

ac Amy Summerfield, y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae sylwadau gan ein hadolygwyr allanol wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau bod yr adroddiad hwn yn hygyrch i amrywiaeth o randdeiliaid.

Ynglŷn ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu dadansoddiadau ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusenol annibynnol sy'n ceisio hyrwyddo lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Cynnwys

Rhagair	i
Crynodeb gweithredol	1
1. Cyflwyniad	4
2. Y gyfraith a'r broses gyfreithiol	10
3. Methodoleg	13
4. Faint o deuluoedd sy'n dod i'r llys?	14
5. Pwy yw'r teuluoedd sy'n gysylltiedig?	18
6. Beth y gwneir cais amdano a chan bwy?	29
7. Faint o deuluoedd sy'n dychwelyd i'r llys?	32
8. Casgliadau a goblygiadau	35
Cyfeiriadau	39
Atodiad	43



Population Data Science
at Swansea University



Rhagair

Dywedwn yn aml ein bod yn gweithredu yn y tywyllwch yn y system cyfiawnder teuluol oherwydd diffyg data i lywio penderfyniadau. Gwelir hyn yn fwyaf amlwg o ran achosion cyfraith breifat. Mae dwywaith cymaint o geisiadau preifat yn cael eu cychwyn yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn â cheisiadau cyfraith teulu gyhoeddus, ac eto rydym yn gwybod llai fyth am y teuluoedd sy'n ymwneud â'r achosion hyn nag yr ydym am y teuluoedd sy'n ymwneud ag achosion cyfraith gyhoeddus.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn gwybodaeth. Dyma'r adroddiad cyntaf yn y gyfres Datgelu Cyfraith Teulu Breifat – cyfres o astudiaethau a fydd yn ein helpu i ddeall nodweddion ac amgylchiadau teuluoedd mewn achosion cyfraith breifat yn well. Mae'n darparu'r proffil cyntaf erioed o deuluoedd sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat yng Nghymru.

Rydym yn gwybod bod angen dybryd am y gwaith hwn. Yn ystod y misoedd i ddod, bydd rhaid gwneud penderfyniadau i fynd i'r afael â'r pwysau digynsail ar y system cyfiawnder teuluol. Bydd angen i unrhyw ffordd newydd o weithredu gael ei llywio gan ddealltwriaeth well o'r teuluoedd sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat i'w helpu i ddatrys eu hanghydfodau mor gyflym ac mor deg â phosibl. Os parhawn i weithredu yn y tywyllwch, gallai'r camau a gymerir fod yn aneffeithiol a gallent arwain at gamgymeriadau costus.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ymrwymo i wella bywydau plant a theuluoedd trwy roi data a thystiolaeth wrth wraidd y system cyfiawnder teuluol. Rydym wedi cychwyn ar y daith tuag at greu sylfaen dystiolaeth well o lawer yn ymwneud â chyfraith breifat. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r awduron am eu dadansoddiadau data arloesol a'u trosolwg clir o'r canfyddiadau allweddol. Bydd y ddealltwriaeth hon yn darparu sylfaen bwysig iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.



Lisa Harker
Cyfarwyddwr, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Crynodeb gweithredol

Dyma'r adroddiad cyntaf o'i fath i ddefnyddio data lefel poblogaeth am gyfraith teulu breifat yng Nghymru, a'i gysylltu â data demograffig. Dyma'r cyntaf yn y gyfres Datgelu Cyfraith Teulu Breifat, sy'n ceisio datblygu proffil o deuluoedd mewn achosion cyfraith breifat, a'u llwybrau a'u canlyniadau yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae'r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac arferion yng Nghymru a Lloegr yn llai datblygedig o lawer ar gyfer cyfraith teulu breifat nag y mae ar gyfer cyfraith teulu gyhoeddus, er bod mwy na dwywaith cymaint o achosion cyfraith breifat bob blwyddyn. Ni fu unrhyw waith ymchwil o bwys ynglŷn ag achosion cyfraith breifat yng Nghymru.

Canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil

Mae ein dadansoddiad wedi cadarnhau bod yr hyn y mae gwaith ymchwil presennol yn ei ddweud wrthym am Loegr yn wir am Gymru hefyd – bod mwyafrif yr achosion cyfraith breifat: rhwng dau riant; yn cael eu dwyn gan y riant dibreswyl fel arfer, sef y tad gan amlaf; ac yn ymwneud ag un plentyn, sydd fel arfer rhwng un a naw mlwydd oed. Mae'r oedolion sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat yn eu hugeiniau hwyr a'u tridegau yn bennaf.

Mae'r defnydd a wneir o'r llys yn isel o hyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae nifer y ceisiadau cyfraith breifat wedi bod yn cynyddu'n raddol yn ystod y degawd diwethaf

- Yn 2007, roedd 2,440 o geisiadau cyfraith breifat. Cynyddodd hyn i 3,800 yn 2013, yna gostyngodd yn sylweddol yn dilyn y newidiadau i gymorth cyfreithiol a gyflwynwyd y flwyddyn honno. Erbyn hyn, mae nifer y ceisiadau wedi dychwelyd i'r lefel flaenorol fwy neu lai, gyda 3,390 o geisiadau yn 2018.
- Mae'n ymddangos bod dileu'r hawl i gael cymorth cyfreithiol (heblaw ar gyfer achosion penodol sy'n ymwneud â cham-drin domestig) wedi gohirio neu oedi ceisiadau yn bennaf, yn hytrach na lleihau lefel yr angen am gymorth yn y tymor hwy.
- Mae llai nag 1% o'r holl deuluoedd yng Nghymru (gan gynnwys teuluoedd sy'n gyflawn ac wedi'u gwahanu) yn gwneud cais cyfraith breifat bob blwyddyn.

Mae oddeutu traean o'r ceisiadau yn rhai sy'n dychwelyd i'r llys

- Gwnaed rhwng 31% a 34% o'r ceisiadau cyfraith breifat rhwng 2014 a 2018 gan ymgeisydd a fu'n ymwneud â chais blaenorol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Beth yw 'achosion plant cyfraith breifat' neu 'achosion'?

Lle nad yw rhieni (neu ofalwyr eraill) yn gallu cytuno ar y trefniadau ar gyfer eu plant, caiff un neu'r ddau wneud cais i'r llys am orchymyn o dan Ddeddf Plant 1989. Mae amrywiaeth o orchymynion ar gael ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Yr un mwyaf cyffredin yw gorchymyn trefniadau plentyn (CAO), sy'n rheoleiddio'r trefniadau yn ymwneud â ble y dylai plentyn fyw a/neu bwy y dylai ei weld.

O ble y daeth y data?

Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio data gweinyddol dienw o Cafcass Cymru, sy'n cael ei gysylltu â data demograffig ac amddifadedd gan ddefnyddio'r systemau diogel iawn ar gyfer cysylltu ac anonymeiddio a sefydlwyd gan Fanc Data SAIL.

Mae'r astudiaeth yn cynnwys yr holl geisiadau cyfraith breifat a wnaed i'r llys teulu yng Nghymru rhwng 2007 a 2018. Cynhwyswyd gwybodaeth am y gorchymynion cyfreithiol yr ymgeisiwyd amdanynt – a'r ymgeiswyr, yr ymatebwyr, a'r unigolion dan sylw – ar gyfer ceisiadau a roddwyd rhwng 2011 a 2018.

- Mae mamau ychydig yn fwy tebygol o ddychwelyd i'r llys.
- Mae tadau'n fwy tebygol o fod yn ymgeiswyr ailadroddus, tra bod mamau'n fwy tebygol o fod yn destun ceisiadau ailadroddus, neu gyflwyno eu ceisiadau eu hunain ar ôl bod yn destun cais blaenorol.

Mae cysylltiad amlwg rhwng amddifadedd a cheisiadau cyfraith breifat, sy'n dangos bod bregusrwydd economaidd rhieni cyfraith breifat wedi cael ei anwybyddu'n flaenorol

- Yn 2018, roedd 29% o dadau a 33% o famau a wnaeth gais cyfraith breifat yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig, ac roedd 51% o dadau a 56% o famau yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig.
- Yn yr un modd ag achosion cyfraith gyhoeddus, mae lefel yr angen a thueddiadau yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol, a gwelir y cyfraddau uchaf o geisiadau cyfraith teulu breifat yn Abertawe a de-orllewin Cymru.

Mae rhywfaint o dystiolaeth o 'fwlch cyfiawnder' yn dilyn newidiadau i gymorth cyfreithiol

- Roedd gostyngiad yng nghyfran y ceisiadau a gyflwynwyd gan dadau, gan ymgeiswyr iau, a chan dadau sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o 2013 ymlaen. Mae hyn yn gyson ag ymddangosiad 'bwlch cyfiawnder' yn dilyn dileu cymorth cyfreithiol o'r rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat yn 2013.

Er bod y boblogaeth cyfraith breifat gyffredinol yn eithaf sefydlog, mae rhai newidiadau yn yr hyn yr ymgeisir amdano

- Mae mwyafrif y ceisiadau cyfraith breifat yn parhau i fod ar gyfer gorchmynion trefniadau plentyn (CAOs).
- Bu cynnydd cyfrannol mewn ceisiadau am orchmynion cyfraith breifat 'eraill' yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cynyddodd nifer y ceisiadau am orchmynion gorfodi, camau gwaharddedig a materion penodol o 15% o'r holl geisiadau gan rieni yn 2011 i 30% yn 2018.
- Mae'r gorchmynion 'eraill' hyn yn cynrychioli newid eithaf arwyddocaol i lwyth gwaith y system cyfiawnder teuluol tuag at yr hyn a allai fod yn achosion mwy heriol neu ddadleuol.

Argymhellion

Er bod y rhaglen waith hon ar gam cynnar iawn o hyd, mae'r pedwar goblygiad canlynol i bolisi ac arferion yn ymddangos yn glir ar yr adeg hon.

- Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi dangos bod nifer anghymesur o achosion cyfraith breifat yn ymwneud â phobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae'n hollbwysig bellach bod llunwyr polisi'n rhoi ystyriaeth briodol i rôl amddifadedd fel ffactor mewn

achosion cyfraith breifat a sut mae'n rhyngweithio â ffactorau eraill fel gwrthdaro, cam-drin domestig a materion amddiffyn plant eraill. Bydd hyn yn gam allweddol wrth lywio – ac efallai ailffurfio – yr ymateb i'r angen am gyfraith breifat yn y llys a'r tu allan i'r llys.

- Mae'r gwaith ymchwil wedi amlygu rhai gostyngiadau mewn ceisiadau cyfraith breifat gan dadau, gan ymgeiswyr iau, a chan y rhai hynny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn dilyn y diwygiadau i gymorth cyfreithiol yn 2013. Argymhellwn fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu'r dystiolaeth hon, ochr yn ochr â dadansoddiadau eraill a allai fod ganddi, i fyfrio ar b'un a yw mynediad at gyfiawnder yn cael ei rwystro a beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â hynny.
- Mae mwyafrif yr achosion cyfraith breifat yn ymwneud ag un plentyn neu ddau sibling. Bydd cymorth brodyr a chwiorydd, y ceir cryn dystiolaeth i ddangos ei fod yn rhoi cydnerthedd i blant, ar goll mewn nifer fawr o achosion cyfraith breifat. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghydfod rhwng oedolion, mae'r gwaith ymchwil yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod cymorth ar gael i blant.
- Argymhellwn fod Cafcass Cymru, ar y cyd â Cafcass Lloegr yn ddelfrydol, yn parhau i brofi a gweithredu proses i gofnodi yn ei gronfa ddata: p'un a oes honiadau o gam-drin domestig a phryderon diogelu eraill; perthynas pob oedolyn â'r plentyn ac oedolyn arall/oedolion eraill; ac, yn ddelfrydol, trefniadau byw'r plentyn ar adeg y cais. Byddai hefyd yn fuddiol pe byddai 'treulio amser gyda' neu 'fyw gyda' yn cael ei gofnodi ar CAOs.

Bylchau data a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Mae ein blaenoriaethau ymchwil nesaf yn cynnwys y canlynol.

- Cymharu achosion cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys proffiliau o'r unigolion sy'n gysylltiedig, mathau o geisiadau a dychweliadau i'r llys.
- Edrych yn fanylach ar anghenion a bregusrwydd oedolion a phlant cyn mynd i'r llys, gan gynnwys cyffredinrwydd anawsterau iechyd meddwl, cam-drin domestig a materion amddiffyn plant eraill. Bydd archwilio'r gorgyffyrddiad rhwng achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn flaenoriaeth allweddol.
- Gweithio i wahaniaethu mathau o achosion cyfraith breifat a llwybrau oedolion a phlant, gan gynnwys dadansoddiad manylach o achosion sy'n dychwelyd a'r rhai lle y cynrychiolir y plentyn ar wahân (a adwaenir fel achosion 'Rheol 16.4'). Gallai defnyddio data wedi'i gysylltu ar raddfa fawr (iechyd, lles a demograffig ychwanegol) daflu mwy o oleuni ar yr hyn a allai wahaniaethu proffiliau defnyddwyr unigol, ailadroddus, a lluosog (neu gronig). Byddai hyn yn golygu y gellid adnabod ac ymyrryd yn gynharach i atal yr hyn a fyddai'n achosion cronig fel arall rhag mynd yn hirsefydlog.
- Ymchwilio'n fanylach i wahanol fathau o achosion, yn enwedig achosion ansafonol nad oes llawer o waith ymchwil blaenorol ynglŷn â nhw: y rhai hynny sydd â dau ymgeisydd neu fwy a/neu ddau ymatebwr neu fwy; a'r rhai hynny sy'n cynnwys gorchmynion heblaw ar gyfer trefniadau plant.

1. Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres ar achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr ar gyfer Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. Anghydfodau yw achosion plant cyfraith breifat, fel arfer rhwng rhieni ar ôl i berthynas chwalu, ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer magu plentyn, megis ble y dylai plentyn fyw a/neu bwy y dylai ei weld.¹

Yng Nghymru a Lloegr, mae mwy na dwywaith cymaint o achosion cyfraith breifat yn cael eu cychwyn bob blwyddyn nag achosion cyfraith gyhoeddus (neu amddiffyn plant) – yn 2019, 54,930 o gymharu â 18,393 (y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) 2020a). Er gwaethaf hyn, mae'r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac arferion yn llai datblygedig o lawer ar gyfer cyfraith breifat na chyfraith gyhoeddus. Mae'r gyfres hon o adroddiadau yn ceisio unioni'r anghydbwysedd hwnnw.

Yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus sy'n cael eu dwyn gan yr awdurdod lleol, mae ceisiadau cyfraith breifat yn cael eu sbarduno gan benderfyniadau unigolion preifat, sef rhiant fel arfer, yn hytrach na'r wladwriaeth. I ddechrau, felly, mae'n hanfodol datblygu dealltwriaeth dda o bwy yw'r teuluoedd hyn, gan gynnwys eu nodweddion, eu hamgylchiadau a'u bregusrwydd posibl, eu hangen am gefnogaeth a chymorth, a'r rhesymau pam y maent yn cyflwyno cais i'r llys teulu. Mae'r adroddiad hwn yn datblygu profil demograffig ac economaidd-gymdeithasol o deuluoedd sy'n ymwneud â cheisiadau plant cyfraith breifat yng Nghymru. Bydd adroddiadau diweddarach yn disgrifio'r sefyllfa yn Lloegr ac yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a phroffiliau seicogymdeithasol eraill yr oedolion a'r plant sy'n gysylltiedig, yn ogystal â phrosesau a chanlyniadau ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol.

Yr heriau sy'n wynebu'r system cyfiawnder teuluol

Pam mae hyn yn bwysig nawr? Mae'r system cyfiawnder teuluol yn wynebu nifer o heriau mawr. Er nad yw'r mwyafrif helaeth o rieni'n cynnwys y llysoedd wrth wneud trefniadau rhianta ar ôl gwahanu, mae nifer y ceisiadau cyfraith breifat wedi cynyddu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf (MoJ 2020a). O safbwynt rheoli, ceir pryder ynglŷn â sut y bydd y llysoedd teulu, y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass a Cafcass Cymru), a gwasanaethau eraill yn ymdopi â galw uwch. Cyfeiriodd Llywydd yr Is-adran Deuluoedd yn ddiweddar at sefyllfa lle 'yr ydym, i bob pwrpas, yn rhedeg nerth ein traed i fyny grisiau symudol sy'n mynd i lawr' (McFarlane 2019a).

Mae'n ymddangos bod y pandemig COVID-19 wedi ychwanegu at yr heriau presennol. Mae wedi rhoi pwysau ar lawer o drefniadau cyswllt plant rhwng parau sydd wedi'u gwahanu ar adeg pan fo mynediad at ffynonellau cymorth, gan gynnwys y llys teulu, wedi'i gyfyngu. Er ei bod yn ymddangos bod nifer y ceisiadau i'r llys wedi gostwng ar ddechrau'r argyfwng, maen nhw'n debygol o gynyddu (o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 a'r pwysau ychwanegol ar

¹ Mae'r termau cyfreithiol ar gyfer y materion hyn wedi newid dros amser. Disodlwyd 'gwarchodaeth' a 'mynediad' gan 'breswyliaeth' a 'chyswllt' yn Neddff Plant 1989, a ddaeth i rym ym 1991. Disodlwyd y termau hyn wedi hynny gan gysyniad ehangach 'trefniadau plentyn' yn 2014, er bod trefniadau plentyn yn gallu cynnwys 'byw gyda' a/neu 'dreulio amser gyda'.

deuluoedd) wrth i'r cyfyngiadau symud lacio ar yr union adeg pan fydd y llys yn ymdrin ag ôl-groniadau mawr o achosion sydd wedi cael eu gohirio.

Gwaethygydd y sefyllfa gan effaith Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 (LASPO), a ddileodd yr hawl i gymorth cyfreithiol ar gyfer pob achos cyfraith breifat, heblaw am achosion penodol sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Er y bu wastad rhaid i lawer o ymgyfreithwyr cyfraith breifat (y partïon sy'n oedolion) gynrychioli eu hunain yn y llys, mae effaith y newidiadau i gymorth cyfreithiol yn golygu bod y mwyafrif bellach yn ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.² Mae hyn yn cyflwyno heriau i ymgyfreithwyr, y gallai fod yn anodd i rai ohonynt ddeall a chymryd rhan mewn achosion o ganlyniad i amrywiaeth o anafteision personol ac amgylchiadol, gan gynnwys anawsterau cyfathrebu (Trinder et al. 2014). Mae hefyd yn achosi problemau i'r llysoedd gan fod rhaid iddynt ymdrin â phartïon lleys nad ydynt yn deall y broses, sydd wedi datblygu i raddau helaeth gan dybio y byddai gan ymgyfreithwyr gynrychiolaeth gyfreithiol.

Yr her olaf, ac efallai'r un fwyaf anodd, yw sut mae'r llys teulu'n mynd i'r afael ag achosion cyfraith breifat lle y ceir honiadau ynghylch cam-drin domestig. Fel yr esboniwn isod, mae tua hanner yr achosion cyfraith breifat yn cynnwys honiad ynghylch cam-drin domestig, ond ceir pryderon hirsefydlog bod y rhagdybiaeth gyfreithiol ynglŷn ag ymwneud gan riant wedi cael ei hyrwyddo ar draul diogelwch mewn achosion cam-drin domestig. Arweiniodd y pryderon hyn at banel ymchwilio a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), a adroddodd ym mis Mehefin 2020 (MoJ 2020b).³ Daeth panel o hyd i dystiolaeth o 'faterion systematig sydd wedi gwreiddio'n ddwfn y canfuwyd eu bod yn effeithio ar sut mae perygl i blant ac oedolion yn cael ei amlygu a'i reoli' (tud. 3). Mae 'cynllun gweithredu'r' panel (y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020c) yn galw am newidiadau mawr i'r ffordd y mae'r llysoedd teulu'n mynd i'r afael ag achosion cam-drin domestig.

Hyd yma, mae'r ymateb polisi i achosion cyfraith breifat wedi canolbwyntio'n helaeth ar geisio lleihau'r galw ar y llysoedd. Gwnaed cryn ymdrech i geisio atal achosion rhag cyrraedd y llys, yn bennaf trwy annog y defnydd o gyfryngu a dulliau amgen eraill o ddatrys anghydfod. O ran yr achosion hynny sy'n cyrraedd y llys, rhoddwyd pwyslais ers tro ar geisio annog y partïon i ddod i gytundeb ac osgoi ymchwiliad pellach neu wrandawiadau pellach. Fodd bynnag, mae ymdrechion i ddargyfeirio achosion wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar gyfryngu bob amser wedi bod yn gymharol isel, ond gwelwyd gostyngiad sylweddol ers cyflwyno LASPO, a ddileodd rôl cyfreithwyr teulu fel atgyfeirwyr i gyfryngu, i raddau helaeth.⁴ Yn fwyaf diweddar, cynigiodd y Gweithgor Cyfraith Breifat,⁵ a sefydlwyd gan Lywydd yr Is-adran Deuluoedd i adolygu'r system, dreialu system

² Mae ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn cynrychioli eu hunain yn y llysoedd.

³ I gael manylion, gweler: www.gov.uk/government/news/spotlight-on-child-protection-in-family-courts

⁴ Mae Cyfarfodydd Gwybodaeth am Gyfryngu ac Asesu (MIAMs) yn parhau i fod traean yn is na'r lefel cyn-LASPO; mae dechreuadau a chanlyniadau cyfryngu ar oddeutu hanner (y Weinyddiaeth Gyfiawnder/yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol 2020).

⁵ Sefydlwyd y Gweithgor Cyfraith Breifat yn 2019. Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori ym mis Mehefin 2019 (y Gweithgor Cyfraith Breifat 2019) a chyhoeddwyd ail adroddiad ym mis Mawrth 2020 (y Gweithgor Cyfraith Breifat 2020). Bydd adroddiad terfynol yn dilyn ymchwiliad sbotolau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynglŷn â cham-drin domestig (gweler Troednodyn 3).

brysbennu ac olrhain gyda llwybrau gwahanol ar gyfer achosion nad ydynt yn cynnwys cam-drin domestig, achosion cam-drin domestig, ac achosion sy'n dychwelyd.

Yr angen am sylfaen dystiolaeth gadarn i fynd i'r afael â'r heriau

Mae angen ymatebion polisi ac arfer arwyddocaol i fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu'r system cyfiawnder teuluol. Mae'r ymatebion hyn yn datblygu, ond mae'n hanfodol bod y ddau'n cael eu llywio gan sylfaen dystiolaeth drwyadl. Mae llawer o gwestiynau pwysig a chysylltiedig i'w hateb. A oes gormod o achosion yn dod i'r llys neu ddim digon, o ystyried y problemau sy'n gysylltiedig â chael mynediad at gyfiawnder ar ôl LASPO? Sut mae teuluoedd sydd wedi'u gwahanu ac sydd wrthi'n gwahanu yn cael eu cynorthwyo y tu allan i broses y llys ar hyn o bryd, i hyrwyddo canlyniadau da ac fel modd o ddargyfeirio oddi wrth y llys, lle y bo'n briodol? Pam mae pobl yn gwneud cais, a rhai fwy nag unwaith? Beth yw eu hanghenion, eu hamgylchiadau, a'u bregusrwydd, a sut mae'r rhain yn wahanol i rai teuluoedd eraill sydd wedi gwahanu? A yw ymyrraeth gan y llys yn lleihau, yn cynnal neu'n gwaethygu bregusrwydd? A yw'n ddiogel neu'n briodol dargyfeirio achosion oddi wrth y llys? Pa mor dda mae'r system olrhain tri cham gynlluniedig yn cyfateb i ystod yr achosion? Beth yw canlyniadau ymwneud gan y llys? A yw'r llys yn hybu neu'n lleihau lles?

Ni fydd y rhaglen ymchwil hon yn gallu ateb yr holl gwestiynau hyn, ond gobeithiwn wneud cyfraniad arwyddocaol. Yn anad dim, pwysleisiwn yr angen i gynhyrchu tystiolaeth gadarn i fynd i'r afael â chwestiynau o'r fath. Rydym wedi dewis dechrau trwy geisio datblygu dealltwriaeth well o'r oedolion a'r plant sy'n defnyddio'r system – y 'cwsmeriaid' – a'u nodweddion, eu hamgylchiadau a'u hanghenion, oherwydd gallant gael eu hanwybyddu mewn system lle mae datblygu polisi'n tueddu i gael ei sbarduno gan bwysau adnoddau, a'i ystyried o safbwynt proffesiynol. Mae'r dadleuon yn y maes hwn, er enghraifft, yn tueddu i ganolbwyntio ar y 'galw' ar y systemau cyfiawnder teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, yn hytrach na hawliau ac anghenion teuluoedd cyfraith breifat am gymorth, cefnogaeth ac, o bosibl, amddiffyniad y llys.

Wrth i'r Gweithgor Cyfraith Breifat barhau i adolygu'r system bresennol a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio, mae angen sylfaen dystiolaeth gryfach a all helpu i daflu goleuni ar yr hyn sy'n sbarduno'r galw hwn, ac anghenion a bregusrwydd defnyddwyr y system cyfiawnder teuluol. Bydd mynegi'r cwestiwn yn fwy cyffredinol, i ddeall hefyd pwy yw'r cwsmeriaid a'r hyn y gallai fod arnynt ei angen ac y gallent ei ddymuno, yn darparu ymagwedd fwy cytbwys ac effeithiol at ddatblygu polisi ac arferion ac yn osgoi camdybiaethau. Gallai hefyd arwain at ymyriadau wedi'u targedu'n fwy gofalus, y tu mewn a'r tu allan i'r llys.

Beth ydym ni eisoes yn ei wybod am gyfraith breifat?

Mae gennym ni eisoes rai canfyddiadau clir ynglŷn ag achosion cyfraith breifat a ailadroddwyd mewn amryw astudiaethau yn ymwneud â Lloegr ac weithiau Cymru a Lloegr. Crynhoir y rhain ym Mluch 1, a rhoddir mwy o fanylion yn yr adrannau perthnasol isod. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r hyn rydym yn ei wybod wedi'i seilio ar nifer fach o astudiaethau, y mae rhai ohonynt yn eithaf hen erbyn hyn ac yn ymwneud â samplau cymharol fach yn nodweddiadol. Yn ogystal, cipolygon wedi'u seilio ar adeg benodol yw'r

astudiaethau ymchwil sydd eisoes yn bodoli, yn gyffredinol, sy'n golygu ei bod hi'n anodd amlygu tueddiadau dros amser.

Mae bylchau arwyddocaol iawn yn y llenyddiaeth hefyd. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am broffil y partiön y tu hwnt i oedran a rhywedd, a braidd dim o gwbl am statws economaidd-gymdeithasol ac anfantais a ffactorau seicogymdeithasol. Mae'r diffyg data hydredol hefyd yn golygu nad oes unrhyw astudiaethau wedi gallu archwilio'r berthynas rhwng lles cyn mynd i'r llys a chanlyniadau ar ôl bod yn y llys. Yn ogystal, ychydig iawn o ddadansoddiad manwl sydd gennym o achosion ansafonol – achosion nad ydynt yn ymwneud â rhieni, neu geisiadau am orchmynion llai cyffredin fel gorchmynion mater penodol neu gamau gwaharddedig.⁶

Blwch 1: Beth ydym ni eisoes yn ei wybod am achosion plant cyfraith breifat?

- Lleiafrif yn unig o rieni sydd wedi gwahanu neu ysgaru sy'n troi at y llys teulu i benderfynu ar y trefniadau ar gyfer eu plant. Mae'r mwyafrif yn cytuno ar drefniadau'n anffurfiol rhyngddynt eu hunain.
- Mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ar ôl gostwng yn sylweddol yn 2014 yn dilyn dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer y rhan fwyaf o achosion cyfraith teulu breifat.
- Mae'r mwyafrif helaeth o achosion yn ymwneud â dau riant sydd wedi gwahanu a'u plentyn/plant, ac mae oddeutu un o bob deg yn ymwneud â rhieni-cu neu aelodau eraill o'r teulu.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn byw gyda'u mamau ar ôl gwahanu ac yn treulio amser gyda'u tadau. Adlewyrchir y patrwm hwn o ran rhywedd yn y rhai sy'n defnyddio'r llys: gwneir y rhan fwyaf o geisiadau i'r llys gan dadau dibreswyl i dreulio amser gyda'u plant.
- Mae'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud ag un plentyn cymharol ifanc, oddeutu chwe blwydd oed ar gyfartaledd.
- Mae tua hanner yr achosion cyfraith breifat yn cynnwys honiadau ynghylch cam-drin domestig, ac mae rhwng pumed a chwarter yn cynnwys pryderon diogelu eraill, fel camddefnyddio sylweddau ac anawsterau iechyd meddwl.
- Mae tua thraean o'r achosion cyfraith breifat yn dychwelyd i'r llys gydag ail gais. Nifer fach iawn yn unig sy'n ymgyfreithwyr cronig gyda sawl cais yn ymwneud â'r un plentyn/plant.

⁶ Gweler Pennod 2 am fanylion y gorchmynion perthnasol a'r fframwaith cyfreithiol ehangach.

Yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei gyfrannu – a'i gyfyngiadau

Mae'r adroddiad cyntaf hwn wedi'i seilio ar ddata gwasanaeth llawn ar lefel y boblogaeth a gesglir fel mater o drefn gan Cafcass Cymru (sefydliad Llywodraeth Cymru sy'n cynrychioli pennaf les plant mewn achosion cyfiawnder teuluol yng Nghymru) ac sydd ar gael o fewn y Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) sy'n diogelu preifatrwydd, a gynhelir gan Brifysgol Abertawe (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2014; Jones et al. 2019). Cryfder gwaith ymchwil sydd wedi'i seilio ar ddata gweinyddol yw ei fod yn darparu samplau mawr a chynrychioliadol gan osgoi problemau yn ymwneud â thuedd, sy'n gallu cyfyngu ar y cyffredinoladau y gellir eu casglu o samplau bach neu anghynrychioliadol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r dadansoddiad annibynnol cyntaf o ddata cyfraith teulu breifat ar lefel poblogaeth a ddelir gan Cafcass Cymru, wedi'i seilio ar sampl gyfan o fwy na 36,000 o geisiadau, a gyflwynwyd rhwng 2007 a 2018 yng Nghymru. Felly, mae ein proffil o'r teuluoedd sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau hyn yn cadarnhau ac yn diweddarau'r canfyddiadau a amlinellir ym Mluch 1 uchod, ond gyda data lefel poblogaeth, yn hytrach nag astudiaethau ffeil achos cymharol fach.

Mae'r adroddiad hefyd yn torri tir newydd y tu hwnt i gadarnhau canfyddiadau presennol yn unig gyda sampl fwy o faint a mwy cadarn. Trwy ailstrwythuro'r data i greu set ddata arhydol (neu o flwyddyn i flwyddyn), rydym wedi edrych ar gyfraith breifat yn y tymor hwy, gan geisio amlygu tueddiadau a phatrymau dros gyfnod o bron i ddegawd. Er bod argyfyngau'n gofyn am ymateb gan y system cyfiawnder teuluol, mae hefyd yn bwysig gofyn cwestiynau am natur tymor hwy a pharhaus yr angen am gyfraith breifat, i lywio polisi ac arferion.

Rydym hefyd wedi ystyried teuluoedd yn 'ehangach', gan fynd y tu hwnt i'r wybodaeth sydd ar gael ar ffeil y llys neu Cafcass Cymru. Trwy gysylltu cofnodion Cafcass Cymru â ffynonellau data gweinyddol eraill sydd ar gael yn y Banc Data SAIL, gallwn gael dealltwriaeth well o fywydau ac amgylchiadau'r teuluoedd hyn y tu allan i'r llys. Yn yr adroddiad hwn, er enghraifft, bu'n bosibl ystyried amddifadedd ar lefel ardal o ran ymgeiswyr ac ymatebwyr mewn achosion cyfraith breifat am y tro cyntaf, gan ychwanegu at waith archwiliadol blaenorol gan y tîm ymchwil (Johnson et al. 2020). Rydym ar gam cynnar o ran cysylltu ffynonellau data, ond ein nod yw gwednewid ein dealltwriaeth o'r teuluoedd hyn a'u canlyniadau, yn unol â'r weledigaeth ar gyfer Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (Broadhurst et al. 2018; Broadhurst a Williams 2019).

Felly, mae'r adroddiad hwn yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o achosion cyfraith breifat yn y ffyrdd canlynol:

- mae'n archwilio tueddiadau yn y galw, ac yn cyfrannu at ddadleuon polisi ynglŷn â ph'un a yw gormod o rieni'n troi at y llys trwy archwilio cyfran yr holl deuluoedd yng Nghymru sy'n defnyddio'r llys teulu
- mae'n datblygu proffil demograffig o deuluoedd, gan gynhyrchu tystiolaeth newydd bwysig ynglŷn ag amddifadedd teuluoedd cyfraith breifat
- mae'n proffilio pwy sy'n ymgeisio am ba orchmynion, gan daflu goleuni newydd ar geisiadau am orchmynion camau gwaharddedig, gorchmynion materion penodol, a

gorchmynion gorfodi, y gwneir llai o ddefnydd ohonynt ond sy'n arwyddocaol o ran nifer o hyd⁷

- mae'n ychwanegu at ganfyddiadau presennol ynglŷn â chyfran y ceisiadau ailadroddus, gan ymchwilio i batrymau ailadrodd yn ôl rhywedd a rôl ymgyfreitha am y tro cyntaf
- mae'n gwneud rhai awgrymiadau petrus ynglŷn â sut gallai'r newidiadau i gymorth cyfreithiol fod wedi effeithio ar fynediad at gyfiawnder.

Ar yr un pryd, dylem amlygu cyfyngiadau'r adroddiad hwn a'r fethodoleg. Cam cyntaf cymedrol yw hwn tuag at ddatblygu sylfaen dystiolaeth cyfraith breifat. Er y gallwn atgynhyrchu astudiaethau blaenorol ar raddfa fwy o lawer a chyfrannu dadansoddiadau newydd, mae cyfyngiadau'n berthnasol i ddefnyddio data gweinyddol. Cesglir data gweinyddol i wasanaethu anghenion gweithredol, nid gwaith ymchwil. Yn yr achos hwn, mae cronfa ddata Cafcass Cymru yn cofnodi graddau ei ymwneud ag achos, ond mewn achosion cyfraith breifat mae hynny fel arfer yn dod i ben cyn y gwyddys canlyniad yr achos, sy'n cyfyngu ar ein gallu i olrhain canlyniadau achosion, gan ddefnyddio'r ffynhonnell data hon o leiaf.

Yn ogystal, nid yw'r ffynhonnell data'n cofnodi p'un a oes materion diogelu, fel cam-drin domestig, nac ychwaith yn gwahaniaethu rhwng pwy y mae'r plentyn yn byw gydag ef a/neu bwy y mae gan y plentyn gysylltiad ag ef mewn ceisiadau trefniadau plentyn. Mewn rhai achosion, gallwn wneud iawn am gyfyngiadau ffynhonnell data, er enghraifft trwy ganfod procsi i amlygu p'un a yw rhywun yn debygol o fod yn rhiant ai peidio neu gyda phwy y mae'r plentyn yn byw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod rhai cwestiynau na allwn eu hateb gyda data Cafcass Cymru fel y saif. Un o amcanion y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – yw rhoi adborth i ddarparwyr data ar ansawdd a chwmpas y data, a newidiadau posibl i'w dulliau casglu data, a fyddai, gyda goblygiadau cost lleiafsymiol, yn gwella defnyddioldeb yr asedau data gweinyddol gwerthfawr hyn.⁸

Fel bob amser, bydd manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â'r fethodoleg a ddewisir. Mae ffynonellau data gweinyddol yn cynnig y posibilrwydd o archwilio samplau cyfan dros amser, a gellir cynyddu gwerth y data hwn yn sylweddol trwy gysylltu data cyfiawnder, demograffig, iechyd a gofal cymdeithasol, er bod cyfyngiadau'n berthnasol i hyn o ganlyniad i gyfraddau cyfateb. Mae defnyddio data gweinyddol ar lefel y boblogaeth yn cynnig manteision sylweddol o gymharu ag astudiaethau ffeil achos mwy ansoddol, ond mae'n golygu cyfnewidiad anochel rhwng ehangder a dyfnder. Bydd gwaith yn y dyfodol yn archwilio'r posibilrwydd o gysylltu data i raddau mwy, yn ogystal â'r posibilrwydd o gynnal gwaith ansoddol dwys, cyflenwol wedi'i seilio ar ddadansoddi ffeiliau achos.

⁷ Manylir ar y gwahanol fathau o orchmynion ym Mhenod 2.

⁸ Byddai arwydd i gofnodi presenoldeb honiadau ynghylch cam-drin domestig a materion amddiffyn plant eraill yn un enghraifft o'r fath.

2. Y gyfraith a'r broses gyfreithiol

Y pwyslais ar orchmynion preifat

Rhieni sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer plant ar ôl i berthynas chwalu. Yn wahanol i rai gwledydd eraill, pan fydd rhieni'n ysgaru, nid oes gofyniad yng Nghymru a Lloegr i'r trefniadau ar gyfer plant gael eu cymeradwyo gan lys. Yn hytrach na chraffu gorfodol (o leiaf ar ôl ysgaru), mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni optio i mewn i broses y llys dim ond os na allant ddod i gytundeb yn breifat.

Y gorchmynion llys sydd ar gael

Lle nad yw rhieni (neu ofalwyr eraill) yn gallu cytuno ar y trefniadau ar gyfer eu plant, caiff un neu'r ddau wneud cais i'r llys am orchmyn o dan Ddeddf Plant 1989. Mae amrywiaeth o orchmynion ar gael ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Yr un mwyaf cyffredin yw gorchmyn trefniadau plentyn (CAO). Diben y CAO yw rheoleiddio'r trefniadau sy'n ymwneud ag (a) gyda phwy y bydd plentyn yn byw, yn treulio amser gydag ef neu'n cael cysylltiad ag ef, a (b) pryd y bydd plentyn yn byw, yn treulio amser neu'n cael cysylltiad fel arall gydag unrhyw unigolyn (adran 8(1)). Cyflwynwyd y CAO unigol yn 2014 i ddisodli gorchmynion ar wahân ar gyfer cysylltiad a phreswyliaeth, gan gynnwys preswyliaeth a rennir. Ysgogwyd y newid gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 a'i ddiben oedd symud oddi wrth hierarchaeth ganfyddedig y rhiant 'preswyl' a 'chyswllt'. Yn ymarferol, disgrifir CAOs yn rheolaidd fel CAOs 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda' fel ffordd fer o gyfleu realiti bywydau plant.

Mae dau orchmyn arall sydd ar gael o dan Adran 8(1) yn mynd i'r afael ag anghydfodau rhianta eraill a allai godi: gorchmyn camau gwaharddedig (PSO) a gorchmyn mater penodol (SIO). Mae PSO yn gwahardd rhiant rhag cymryd cam penodol a nodir yn y gorchmyn, fel mynd â phlentyn dramor heb ganiatâd. Gellir gwneud SIO lle nad yw rhieni'n gallu penderfynu ar gwestiwn penodol ynglŷn â magwraeth plentyn, fel pa ysgol y dylai'r plentyn fynd iddi, magwraeth grefyddol, neu faterion iechyd.

Pan fydd CAO ar waith, caiff rhiant wneud cais i orfodi'r gorchmyn hwnnw. Gellir ceisio gorfodi trwy wneud cais am CAO newydd neu orchmyn gorfodi, o dan Adran 11J-N.

Caiff tadau ac ail rieni benywaidd dibriod wneud cais i'r llys am orchmyn cyfrifoldeb rhiant (PRO) os nad oeddent wedi'u cofrestru ar dystysgrif geni'r plentyn neu os nad oes ganddynt gytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda mam y plentyn (Adran 4ZA). Caiff llys-rieni wneud cais i'r llys am PRO hefyd os nad oes cytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda deiliaid presennol cyfrifoldeb rhiant (Adran 4A).

Yn nodweddiadol, diffinnir achosion cyfraith breifat a chyhoeddus yn wrthgyferbyniol – mae ceisiadau cyfraith breifat yn ymwneud ag anghydfodau rhwng unigolion preifat, tra bod ceisiadau cyfraith gyhoeddus yn cael eu dwyn pan fydd yr anghydfod rhwng y wladwriaeth (neu'r awdurdod lleol) ac aelodau teulu. Fodd bynnag, ceir 'gorgyffyrddiad' mewn nifer fach o achosion, pan fydd achos 'cyfraith gyhoeddus' (neu amddiffyn plant) yn cael ei ddatrys trwy orchmyn 'cyfraith breifat'. Gallai awdurdod lleol, er enghraifft, annog rhiant-cu i wneud cais am CAO i alluogi plentyn i fyw gydag ef neu hi yn hytrach na chychwyn achos gofal. Caiff rhiant-cu, neu ofalwr posibl arall, wneud cais am orchmyn gwarchodaeth arbennig (SGO) hefyd o dan Adran 4A-G, boed hynny o'i wirfodd neu gydag anogaeth awdurdod lleol.

Mae SGO yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r gofalmwyr amgen hyn am blentyn nad yw'n gallu byw gyda'i rieni biolegol.

Yr egwyddorion cyfreithiol sydd i'w cymhwyso

Mae'r Ddeddf Plant yn amlinellu cyfres o egwyddorion y mae'n rhaid i'r llys eu cymhwyso wrth wneud unrhyw benderfyniad am blentyn. Mae Adran 1(1) y Ddeddf yn nodi mai lles y plentyn fydd prif ystyriaeth y llys. Rhoddir rhestr wirio o ffactorau yn Adran 1(3) y bydd y llys yn rhoi ystyriaeth iddi:

- dymuniadau a theimladau canfyddadwy'r plentyn dan sylw (o ystyried ei oedran a'i ddealltwriaeth)
- ei anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol
- effaith debygol unrhyw newid i'w amgylchiadau ar y plentyn
- oedran, rhywedd a chefnidir y plentyn ac unrhyw rai o'i nodweddion sy'n berthnasol ym marn y llys
- unrhyw niwed y mae'r plentyn wedi'i ddioddef neu mewn perygl o'i ddioddef
- i ba raddau y mae pob un o'r rhieni, ac unrhyw unigolyn arall y mae'r llys o'r farn bod y cwestiwn yn berthnasol iddo, yn gallu bodloni anghenion y plentyn
- ystod y pwerau sydd ar gael i'r llys.

Yn ogystal, mae'n rhaid i'r llys dybio y bydd ymwneud rhiant ym mywyd y plentyn dan sylw yn hyrwyddo lles y plentyn, os gall y rhiant hwnnw fod yn rhan o fywyd y plentyn mewn ffordd nad yw'n rhoi'r plentyn mewn perygl o ddioddef niwed (Adran 1(2A, 2B)). Mae'n rhaid i'r llys ystyried yr egwyddor gyffredinol bod unrhyw oedi wrth benderfynu ar y mater yn debygol o beryglu lles y plentyn (Adran 1(2)). Yn olaf, er bod cais wedi'i wneud, mae'n rhaid i'r llys beidio â gwneud gorchymyn oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud hynny'n well i'r plentyn na pheidio â gwneud gorchymyn o gwbl (Adran 1(5)).

Proses y llys

Mae'r fframwaith ar gyfer proses y llys mewn achosion cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr wedi'i amlinellu yn y Rhaglen Trefniadau Plentyn a'r Cyfarwyddyd Ymarfer 12J cysylltiedig sy'n ymdrin â'r broses ar gyfer achosion cam-drin domestig.

Mae nifer o nodweddion i'w nodi, fel a ganlyn.⁹

- Er mwyn ceisio atal achosion rhag mynd i'r llys, mae'n ofynnol i ddarpar ymgeiswyr fynychu Cyfarfod Gwybodaeth am Gyfryngu ac Asesu (MIAM), cyn cyflwyno cais, yn amodol ar rai esemptiadau.
- Os cyflwynir cais, bydd Cafcass/Cafcass Cymru yn cynnal ymchwiliad diogelu cychwynnol. Mae hyn yn cynnwys gwirio cronfeydd data'r heddlu a'r gwasanaethau plant a galwadau ffôn 30 munud ar wahân gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr a'r

⁹ Amlinellir y broses ar gyfer achos cyfraith breifat mewn siart lif sydd ar gael yn www.justice.gov.uk/downloads/family-justice-reform/cap-flowchart.pdf

ymatebwr/ymatebwyr. Dylai adroddiad diogelu fod ar gael i'r llys a'r partïon cyn y gwrandawriad cyntaf.

- Fel arfer, defnyddir y gwrandawriad cyntaf, sef Apwyntiad Cyntaf Gwrandawriad Datrys Anghydfod (FHDRA), fel cyfle i amlygu'r materion sy'n destun anghydfod a dod i gytundeb y gellir ei ymgorffori mewn gorchymyn cydsynio, gan felly gau'r achos. Fel arall, gellir gwneud gorchymyn dros dro neu ohiriad yn y gwrandawriad cyntaf.
- Gallai'r llys orchymyn i Cafcass/Cafcass Cymru (neu weithiwr cymdeithasol awdurdod lleol neu annibynnol) gynhyrchu adroddiad Adran 7 ar gyfer y llys 'ar y cyfryw faterion sy'n ymwneud â lles y plentyn hwnnw y mae angen ymdrin â nhw yn yr adroddiad' (Deddf Plant 1989 Adran 7(1)). Os felly, gallai'r plentyn gael ei weld gan y sawl sy'n ysgrifennu'r adroddiad yn rhan o'i ymchwiliadau.

Cynrychiolaeth gyfreithiol

Ni roddir cynrychiolaeth gyfreithiol yn awtomatig i'r oedolion a'r plant mewn achosion cyfraith breifat, yn wahanol i'r rhan fwyaf o achosion cyfraith gyhoeddus. Hyd at fis Ebrill 2013, roedd partïon yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol mewn achosion cyfraith breifat, ond dim ond os oeddent yn bodloni prawf modd a theilyngdod llym. Fel y nodwyd yn gynharach, cyfyngodd LASPO ar gymhwysedd ymhellach. Erbyn hyn, mae cymorth cyfreithiol ar gael i rai dioddefwyr cam-drin domestig yn unig sy'n bodloni'r meini prawf modd hefyd. Bellach, dim ond mewn un o bob pump o achosion cyfraith breifat y mae'r ddau barti'n cael eu cynrychioli (MoJ 2020d).

O dan Reol 16.4 Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010, caiff plant fod yn barti mewn achosion. Byddai gwarcheidwad plant yn cael ei benodi gan y llys i gynnal asesiad annibynnol o ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a'i anghenion lles.¹⁰ Yna, byddai'r gwarcheidwad yn cyfarwyddo cyfreithiwr i gyflwyno achos y plentyn yn y llys. Caiff plentyn ei wneud yn barti mewn achosion sy'n cynnwys 'mater sy'n peri cryn anhawster' yn unig, ac felly mae'r Rheolau'n datgan y bydd yn digwydd 'mewn lleiafrif o achosion yn unig'.¹¹

¹⁰ Gweithiwr cymdeithasol a gyflogir gan Cafcass (Cymru) i gynrychioli anghenion plant.

¹¹ Cyfarwyddiadau Ymarfer 16A – Cynrychioli Plant, Rhan 4, Adran 1, paragraff 7.1.

3. Methodoleg

Cafodd data gweinyddol a gasglwyd ac a gynhaliwyd gan Cafcass Cymru ei gaffael gan y Banc Data SAIL (Ford et al. 2009; Jones et al. 2014, 2019). Mae'r Banc Data SAIL yn cynnwys data iechyd a gweinyddol dienw helaeth am boblogaeth Cymru, sydd ar gael trwy blatfform rhannu data diogel sy'n gwarchod preifatrwydd, wedi'i ategu gan fodel llywodraethu gwybodaeth arloesol a chymesur. O ran pob ffynhonnell data yn y Banc Data SAIL, gan gynnwys cofnodion o Cafcass Cymru, mae data personol adnabyddadwy wedi cael ei ddileu a'i ddisodli â dyfais adnabod unigryw, a adwaenir fel maes cyswllt dienw (ALF), ar gyfer pob unigolyn i allu cysylltu cofnodion o ffynonellau gwahanol. Disgrifir methodoleg anonymeiddio a chysylltu SAIL mewn man arall (Lyons et al. 2009).

Defnyddiodd yr astudiaeth ddata gweinyddol Cafcass Cymru ar lefel y boblogaeth am yr holl geisiadau cyfraith breifat a wnaed i'r llys teulu yng Nghymru rhwng blynyddoedd calendr 2007 a 2018. Cynhwyswyd gwybodaeth am y gorchmynion cyfreithiol yr ymgeisiwyd amdanynt a'r ymgeiswyr, yr ymatebwyr a'r unigolion dan sylw ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd rhwng 2011 a 2018, gan nad oes data o ansawdd digon da ar gael cyn 2011. Gwnaethom gyfrif pob cais unigol, er y gallai rhai fod wedi bod yn rhan o'r un set o achosion llys yn ymarferol.

Roedd mwyafrif y ceisiadau'n ymwneud ag un oedolyn benywaidd ac un oedolyn gwrywaidd (ymgyfreithiwr), a thybiwn, at ei gilydd, mai rhieni'r plentyn/plant oeddent a oedd wedi gwahanu – cyfeiriwn at y rhain fel ceisiadau rhieni safonol. Gan rybuddio y gallai nifer fach o'r ceisiadau hyn fod gan bobl nad ydynt yn rhieni, cyfeiriwn at ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd yn yr achosion rhieni safonol hyn fel mamau a thadau drwyddo draw.

Er mwyn neilltuo cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) i unigolion ar yr adeg ymgeisio, cysylltwyd eu cofnodion â Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD) trwy ALF. O ganlyniad i'r gyfradd gyfateb ac argaeledd cofnodion, dim ond i 84% o unigolion y gellid neilltuo cwintel WIMD (rhoddir rhagor o fanylion yn yr atodiad).

Gwnaethom ddadansoddi nifer y ceisiadau a wnaed, ledled Cymru ac o fewn tair ardal barnwr teulu (DFJ) ddynodedig, dros amser. Cyfrifwyd cyfraddau mynychder blynyddol ac fe'u mynegwyd fel nifer y ceisiadau cyfraith breifat fesul 10,000 o aelwydydd teulu (y rhai hynny sy'n cynnwys plant dibynnol) yn y boblogaeth gyffredinol (Llywodraeth Cymru 2019). I roi hyn mewn cyd-destun, yn 2018 roedd oddeutu 302,000 o aelwydydd teulu yng Nghymru, heb lawer o newid yn ystod y cyfnod. Archwiliwyd nifer yr ymgeiswyr a'r ymatebwyr a oedd yn ymwneud â phob cais. Yna, gwnaethom broffilio'r oedolion a'r plant a oedd yn ymwneud â cheisiadau rhieni safonol, gan gynnwys nodweddion demograffig, amddifadedd, gyda phwy yr oedd y plentyn ieuengaf yn byw ar adeg y cais, a'r gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt.

Yn olaf, gwnaethom ymchwilio i b'un a oedd ymgeiswyr ar gais cyfredol wedi bod yn ymwneud â cheisiadau cyfraith breifat blaenorol o fewn y tair blynedd diwethaf, gan grynhoi eu rôl flaenorol/rolau blaenorol, h.y. ymgeisydd, ymatebwr neu'r ddau, a ph'un a oeddent yn dychwelyd gyda'r un partion oedolyn a phlentyn.

Roedd yr holl ganfyddiadau a gyflwynwyd yn arwyddocaol ar lefel 0.1%. Mae manylion llawn y fethodoleg ar gael yn yr atodiad.

4. Faint o deuluoedd sy'n dod i'r llys?

Fel y nodwyd uchod, ceir cryn bryder yn y system cyfiawnder teuluol ynglŷn â lefel y galw am gyfraith breifat, gyda chanfyddiad bod gormod o rieni'n or-ddibynol ar y llysoedd i ddatrys anghydfodau personol (y Gweithgor Cyfraith Breifat 2019; McFarlane 2019b). Yn y bennod hon, edrychwn ar batrwm y galw yng Nghymru dros amser. Cynigiwn hefyd ymagwedd newydd at gadarnhau cyfran y teuluoedd sy'n defnyddio'r llysoedd teulu i ddatrys trefniadau plentyn.

Nifer y ceisiadau cyfraith breifat

Dechreuwn drwy edrych ar dueddiadau yn y galw cyffredinol am gyfraith teulu breifat yng Nghymru, gan feintoli nifer y ceisiadau a nifer y plant sy'n gysylltiedig. Yna, dadansoddwn gyfradd y ceisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teulu bob blwyddyn. Gallai un cais ymwneud â mwy nag un plentyn, a gallai plentyn unigol fod yn destun mwy nag un cais (neu set o achosion llys) o fewn blwyddyn.

Mae nifer y ceisiadau a wnaed yng Nghymru bob blwyddyn wedi cynyddu o lefel isaf o 2,440 yn 2007 i 3,390 yn 2018 (Tabl 1). Yn yr un modd, mae nifer y plant sy'n ymwneud ag achosion wedi cynyddu o 4,000 yn 2011 (y flwyddyn gynharaf lle mae gennym ddata cadarn am yr unigolion dan sylw) i 4,530 yn 2018.

Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau cyfraith teulu breifat a'r plant sy'n gysylltiedig, 2007–2018

Blwyddyn	Cyfanswm nifer y ceisiadau	Nifer y plant dan sylw
2007	2,440	-
2008	2,800	-
2009	2,820	-
2010	3,110	-
2011	2,860	4,000
2012	3,440	4,700
2013	3,800	5,030
2014	2,720	3,590
2015	2,780	3,680
2016	3,080	4,150
2017	3,260	4,340
2018	3,390	4,530

Faint o deuluoedd yng Nghymru sy'n defnyddio'r llysoedd i wneud trefniadau plentyn?

Er bod nifer y ceisiadau'n ddefnyddiol er mwyn deall y galw ar y llysoedd, nid yw'n dweud wrthym ba gyfran o deuluoedd sydd wedi gwahanu sy'n troi at y llysoedd teulu am gymorth i ddatrys anghydfodau yn ymwneud â gwahanu – cwestiwn allweddol i lunwyr polisïau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth y tu allan i'r llys yn ogystal â'r rhai hynny sy'n ymateb i'r galw yn y system llysoedd. Mewn geiriau eraill, a yw gormod o deuluoedd yn troi at y llysoedd pan allai materion gael eu datrys mewn ffyrdd eraill, fel yr awgrymwyd gan Lywydd yr Is-adran Deuluoedd (McFarlane 2019b)?

Mae'n syndod o anodd ateb y cwestiwn hwnnw. Nodwyd gennym uchod mai lleiafrif yn unig o deuluoedd sydd wedi gwahanu sy'n defnyddio'r llysoedd i ddatrys materion yn ymwneud â threfniadau plentyn, ond mae'n anodd pennu'r union ffigur yn fethodolegol (Peacey a Hunt 2008). Nid oes rhestr samplu y gellir ei defnyddio i adnabod teuluoedd sydd wedi gwahanu, yn enwedig pobl a arferai gyd-fyw neu rieni nad ydynt erioed wedi byw gyda'i gilydd.

Un dull sefydledig fu defnyddio arolygon omnibws i adnabod teuluoedd sydd wedi gwahanu ac yna gofyn iddynt a wnaethant ddefnyddio'r llysoedd i wneud trefniadau plentyn.¹² Mae'r dull hwn yn gadarn ac wedi cynhyrchu canfyddiadau cymharol gyson sy'n dangos bod defnydd o'r llys yn isel, sef tua 10% neu lai o deuluoedd sydd wedi gwahanu. Mae tri arolwg ar wahân a gafwyd o Arolwg Omnibws y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi adrodd bod oddeutu 10% o drefniadau cyswllt wedi cael eu gwneud yn y llys (Blackwell a Dawe 2003; Lader 2008; Peacey a Hunt 2008). Gan ddefnyddio Astudiaeth Carfan y Mileniwm, amlygodd Goisis, Ozcan a Sigle (2016) fod 9% o rieni a oedd wedi gwahanu cyn i'r plentyn gyrraedd saith blwydd oed wedi dweud eu bod wedi gwneud trefniadau cyswllt yn y llys. O'r 8% o oedolion a oedd wedi ysgaru neu wahanu mewn arolwg cenedlaethol gynrychioliadol o aelwydydd, adroddwyd y bu llai nag 1% yn ymwneud ag unrhyw fath o achos llys teulu yn ystod y ddwy flynedd flaenorol (Summerfield a Freeman 2014).

Yn fwy diweddar, awgrymodd Teresa Williams, Cyfarwyddwr Strategaeth Cafcass Lloegr, y gallai cyfran defnyddwyr y llys fod dair neu bedair gwaith yn uwch nag amcangyfrifon blaenorol, a bod un o bob tri o deuluoedd sydd wedi gwahanu yn defnyddio'r llysoedd yn Lloegr (Williams 2018). Ond, fel y nododd yr awdur, amcangyfrif dros dro oedd hwn, a ysgogwyd gan nifer gynyddol o achosion yn y sefydliad. Fodd bynnag, cefnogwyd y cynnig hwn wedi hynny gan Lywydd yr Is-adran Deuluoedd, a awgrymodd fod 38% o deuluoedd sydd wedi gwahanu yn troi at ymglyfreitha, sy'n dangos bod hyn yn 'broblem gymdeithasol fawr' (McFarlane 2019b).

Nid yw'r ffynonellau data a ddelir yn y Banc Data SAIL yn ein galluogi i lunio rhestr o deuluoedd sydd wedi gwahanu, felly mabwysiadwyd dull ychydig yn wahanol. Gwnaethom ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn blynyddol sydd ar gael yn gyhoeddus ynglŷn â nifer y gwahanol fathau o aelwydydd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2019) i gyfrifo nifer


¹² Mae'r Arolwg Omnibws, sef yr Arolwg Safbwyntiau a Ffordd o Fyw bellach, yn arolwg a gynhelir yn fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ym Mhrydain Fawr i gasglu gwybodaeth ar gyfer gwahanol adrannau'r llywodraeth.

yr aelwydydd sy'n cynnwys plant dibynnol, neu 'aelwydydd teulu'.¹³ Yna, gwnaethom gyfrifo cyfraddau mynychder, gan ofyn am bob 10,000 o aelwydydd teulu yng Nghymru, faint o geisiadau cyfraith breifat a wnaed bob blwyddyn?

Canfuwyd bod y twf yn nifer y ceisiadau cyfraith teulu breifat fesul 10,000 o aelwydydd teulu yng Nghymru yn gyson yn ystod y cyfnod 12 mlynedd, a bod dileu cymorth cyfreithiol wedi achosi newid untro i gyfradd y ceisiadau (Ffigur 1). Fel y gellir ei weld, cynyddodd nifer y ceisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teulu yng Nghymru o 67 yn 2007 i 104 o geisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teulu yn 2013. Dilynwyd hyn gan ostyngiad 28% mewn ceisiadau yn 2014, yn sgil cyflwyno'r newidiadau i gymorth cyfreithiol. Ers 2014, mae'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y ceisiadau cyfraith teulu breifat wedi dychwelyd i'r lefel a welwyd cyn LASPO, gyda 93 o geisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teulu yn 2018.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos angen parhaus a chynyddol am gymorth. Maen nhw'n awgrymu bod argaeledd ffactorau y tu allan i'r teulu, fel newidiadau i gymorth cyfreithiol, yn gallu dylanwadu ar y galw. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod dileu cymorth cyfreithiol wedi gohirio neu oedi ceisiadau yn bennaf, yn hytrach na lleihau lefel yr angen am gymorth yn y tymor hwy.

Ffigur 1: Cyfradd y ceisiadau cyfraith teulu breifat fesul 10,000 o aelwydydd teulu, 2007–2018



Mae hefyd yn amlwg mai dim ond cyfran fach iawn o'r holl aelwydydd â phlant dibynnol sy'n dod ag anghydfodau i'r llys – llai nag 1% bob blwyddyn. Yn amlwg, nid yw hyn amcangyfrif o gyfran y *teuluoedd sydd wedi gwahanu* sy'n dwyn achos bob blwyddyn neu sydd erioed wedi dwyn achos. Mae 'aelwydydd teulu' yn cynnwys yr holl deuluoedd yng Nghymru – y rhai cyflawn yn ogystal â'r rhai sydd wedi gwahanu. Nodwn hefyd y gallai rhai o'r teuluoedd hynny wneud sawl cais bob blwyddyn. Er hynny, o gymharu â'r boblogaeth teuluoedd ehangach, nifer fach o deuluoedd y mae arnynt angen cymorth.

¹³ Mae aelwyd yn cynnwys un unigolyn sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn i'w gilydd o reidrwydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad gyda threfniant cadw tŷ cyffredin – hynny yw, rhannu ystafell fyw neu lolfâ neu o leiaf un pryd bwyd y dydd. Cyfeiriwn at aelwydydd sy'n cynnwys o leiaf un oedolyn ac o leiaf un plentyn dibynnol fel 'aelwydydd teulu', gan gydnabod efallai na fydd yr unigolion hyn yn perthyn i'w gilydd.

Wrth i ni ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 wedi rhoi ysgytwad arall i'r system cyfiawnder teuluol. Achosodd yr argyfwng ostyngiad mewn ceisiadau i ddechrau, ond mae'r dystiolaeth gynnar yn dangos bod nifer y ceisiadau'n cynyddu bellach (McFarlane 2020). Bydd diweddariadau data i'r Banc Data SAIL yn y dyfodol yn ein galluogi i archwilio effaith y pandemig ar y duedd o ran ceisiadau cyfraith breifat.

5. Pwy yw'r teuluoedd sy'n gysylltiedig?

Yn y bennod hon, disgrifiwn y plant a'r oedolion sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat. P'un a yw'r defnydd o'r llys yn cael ei ddehongli fel galw, angen neu'r ddau, mae'n hanfodol gwybod mwy am y teuluoedd sy'n gysylltiedig. Fel y dangosodd Blwch 1 uchod, rydym yn gwybod o waith ymchwil blaenorol, a gynhaliwyd yn Lloegr yn bennaf, fod y rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat yn geisiadau gan dadau dibreswyl i dreulio amser gyda phlentyn ifanc sy'n byw gyda'i fam. Yn yr adroddiad hwn, gallwn gadarnhau (neu 'atgynhyrchu', mewn termau ymchwil) y canfyddiadau hyn ar gyfer Cymru, gan ddefnyddio data Cafcass Cymru ar lefel y boblogaeth.

Gallwn hefyd ddechrau taflu goleuni newydd ar y sylfaen ymchwil, gan archwilio nodweddion sy'n gyson ac yn newid dros amser, gan gynnwys effaith bosibl newidiadau i gymorth cyfreithiol. Trwy gysylltu â ffynonellau data eraill, gallwn hefyd ddeall profil economaidd-gymdeithasol teuluoedd cyfraith breifat.

Mae hefyd yn bwysig ailadrodd yr hyn na allwn ei ddweud yn yr adroddiad cyntaf hwn. Nid yw data Cafcass Cymru yn cofnodi nodweddion demograffig fel crefydd ac ethnigrwydd. Nid yw ychwaith wedi cofnodi materion diogelu'n flaenorol, fel presenoldeb cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu faterion iechyd meddwl.¹⁴ Rydym yn gwybod o astudiaethau eraill bod tua hanner yr achosion cyfraith breifat yn Lloegr yn cynnwys honiadau ynghylch cam-drin domestig (Hunt a Macleod 2008; Harding a Newnham 2015; Cafcass/Cymorth i Ferched 2017). Mae'r rhain yn fylchau mawr o ystyried bod y ffactorau hyn yn cael effaith arwyddocaol ar brofiadau plant a'u cyfleoedd mewn bywyd, a dylent hefyd lywio proses y llys. Ceisiwn fynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Er bod amlygu achos 'nodweddiadol' yn gallu bod yn ddefnyddiol, gall gyfyngu ar y gallu i deilwra ymyriadau i nodweddion achos penodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried diddordeb y Gweithgor Cyfraith Breifat mewn datblygu llwybrau gwahanol i wahanol fathau o achosion: ar gyfer achosion diogelu, achosion nad ydynt yn ymwneud â diogelu ac achosion sy'n dychwelyd (y Gweithgor Cyfraith Breifat 2019; y Gweithgor Cyfraith Breifat 2020). Yn yr adran hon, dechreuwn wahaniaethu'r mathau o achosion o fewn y cyfanswm cyffredinol o oddeutu 3,500 o geisiadau yng Nghymru bob blwyddyn. Byddwn yn archwilio sut mae achosion sy'n dychwelyd yn cymharu ag achosion cais cyntaf/unig gais mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Gwahaniaethu mathau o achosion: achosion safonol ac ansafonol, rhywedd ymgeiswyr, a dychweliadau

Rydym yn debygol o ddatblygu sawl gwahanol deipoleg achos yn ystod ein gwaith ymchwil. Ar yr adeg hon o'r dadansoddiad, mae nifer o ffyrdd o gategoreiddio achosion – yn ôl rhywedd yr ymgeisydd, ei berthynas â'r plentyn, a ph'un a yw wedi ymddangos yn y llys o'r blaen.

¹⁴ Ar hyn o bryd, mae Cafcass Cymru yn treialu ffurflen 'cau achos' i gasglu gwybodaeth am faterion lles a chanlyniadau'r achos.

Achosion rhieni safonol ac achosion ansafonol. Un dull a allai fod yn ddefnyddiol yw gwahaniaethu achosion yn ôl y berthynas â'r plentyn/plant. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi gwahaniaethu rhwng achosion sy'n ymwneud â dau riant (tybiedig) sydd wedi gwahanu a'r achosion hynny sy'n ymwneud â phartion lluosog a/neu un neu fwy o bobl nad ydynt yn rhieni (Harding a Newnham 2015; Cassidy a Davey 2011). Ar y sail honno, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod oddeutu 90% o achosion cyfraith breifat yn ymwneud â dau riant sydd wedi gwahanu (sef yr hyn a alwn yn 'achosion rhieni safonol'), a bod oddeutu 10% yn achosion 'ansafonol' sy'n ymwneud ag un neu (weithiau) ddau unigolyn nad ydynt yn rhieni. Canfu astudiaeth ffeil achos Harding a Newnham (2015) mai'r ymgeiswyr mwyaf cyffredin mewn achosion ansafonol oedd rhieni-cu, ac yna llys-rieni a modrybedd/ewythrod.

Cadarnhaodd ein dadansoddiad o ddata Cafcass Cymru fod mwyafrif y ceisiadau a wnaed i'r llysoedd yng Nghymru yn cynnwys un oedolyn gwrywaidd ac un oedolyn benywaidd, y tybiwn eu bod yn rhieni'r plentyn/plant sydd wedi gwahanu, ym mwyafrif llethol yr achosion.¹⁵ Mae naw o bob deg o geisiadau'n achosion rhieni safonol, ac mae hynny wedi bod yn rhyfeddol o gyson dros amser, gan amrywio rhwng 87% a 93% yn ystod y cyfnod (2007–2018).


Mewn adroddiadau yn y dyfodol, byddwn yn edrych yn fanwl ar y 10% o achosion ansafonol i archwilio sut maen nhw'n cymharu ag achosion rhieni safonol. Bydd y dadansoddiad estynedig hwn yn ein galluogi i ddatblygu proffiliau achos o anghydfodau rhwng rhieni a rhwng cenedlaethau ynglŷn â threfniadau plentyn. Yn bwysig, bydd hefyd yn golygu y gellir archwilio achosion cyfraith gyhoeddus-preifat sy'n 'gorgyffwrdd', gan gynnwys y rhai hynny pan ddefnyddir y teulu estynedig fel adnodd mewn achosion amddiffyn plant. Fodd bynnag, bydd gweddill yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n fanwl ar yr oddeutu 90% o achosion 'rhieni safonol'.

Rhywedd ymgeiswyr. Gellir gwahaniaethu ceisiadau cyfraith breifat yn ôl rhywedd yr ymgeiswyr hefyd. Fel y nodwyd uchod, ysgogir achosion cyfraith breifat gan ymgeiswyr gwrywaidd yn bennaf, sef tadau dibreswyl yn nodweddiadol. Canfuom fod cyfran y ceisiadau 'rhieni safonol' a ddygwyd gan dadau wedi newid o dri chwarter (75%) yn 2011 i oddeutu dwy ran o dair (67%) yn 2018 (Ffigur 2).¹⁶

¹⁵ Gan rybuddio y gallai nifer fach o'r ceisiadau hyn fod gan bobl nad ydynt yn rhieni, cyfeiriwn at ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd yn yr achosion rhieni safonol hyn fel mamau a thadau drwyddo draw.

¹⁶ Cynhwyswyd gwybodaeth am y gorchmynion cyfreithiol yr ymgeisiwyd amdanynt a'r ymgeiswyr, yr ymatebwyr a'r unigolion dan sylw ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd rhwng 2011 a 2018 (nid oes data o ansawdd digon da ar gael cyn 2011).

Ffigur 2: Cyfran y ceisiadau rhieni safonol a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018



Fel y gwelwn isod, mae tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng achosion a gychwynnir gan famau a thadau. Gallai deall pa wahaniaethau sy'n bodoli, os o gwbl, gynorthwyo ymhellach i ddatblygu ymyriadau priodol.

Achosion newydd neu achosion sy'n dychwelyd. Nodwedd arall, y byddwn yn ei harchwilio'n fanylach yn ddiweddarach, yw p'un a yw cais yn ddychweliad i'r llys ar gyfer un neu fwy o'r partion.

Proffilio'r plant


Dechreuwn drwy broffilio'r plant yn yr achosion rhieni safonol hyn. Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu atgynhyrchu gwaith ymchwil cynharach – mae plant cyfraith breifat fel arfer yn ifanc, yn ymddangos ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau bach o frodyr a chwiorydd, ac yn byw gyda'u mam yn bennaf ar adeg y cais (Hunt a Macleod 2008; Harding a Newnham 2015; Jay et al. 2019).

Gyda phwy yr oedd y plant yn byw ar adeg y cais?

Mae'r rhan fwyaf o blant yn byw gyda'u mam ar ôl i berthynas chwalu, ni waeth p'un a yw'r llys yn gysylltiedig (Blackwell a Dawe 2003; Lader 2008; Haux et al. 2015). Mae'r patrwm hwn o rianta ar ôl gwahanu yn adlewyrchu patrymau gofal ar sail rhywedd a disgwyliadau cyn gwahanu. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi canfod bod yr un patrymau gofal ar sail rhywedd yn y gymuned gyffredinol wedi'u hailadrodd mewn samplau cyfraith breifat. Mewn geiriau eraill, mae teuluoedd sy'n ymddangos mewn achosion cyfraith breifat yr un mor debygol o fod yn deuluoedd lle mae'r fam yn breswyl ag yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, canfu'r astudiaeth ffeil achos gan Harding a Newnham (2015), lle'r oedd trefniadau wedi'u sefydlu, fod 83% o blant yn byw gyda'r fam, bod 13% yn byw gyda'r tad a bod 3% yn derbyn gofal a rennir.

Mae ein dadansoddiad o ddata yng Nghymru yn ailadrodd y patrymau o Loegr, gyda rhai cyfyngiadau.¹⁷ Roedd mwyafrif y plant (70-76%) a oedd yn ymwneud ag achosion yn byw gyda'u mam ar adeg y cais, ac roedd rhwng 15% a 17% yn byw gyda'u tad. Roedd oddeutu un o bob deg o blant yn byw yn yr un ardal leol fach (ardal gynnyrch ehangach haen is) â'r ddau riant, felly ni ellir pennu'r rhiant preswyl. Mae Ffigur 3 yn dangos, o ran mwyafrif y ceisiadau gan dadau, bod y plentyn (ieuengaf) yn byw gyda'r fam, h.y. yr ymatebwr. Yn yr un modd, yn y rhan fwyaf o achosion a wnaed gan famau, roedd y plentyn (ieuengaf) yn byw gyda hi, h.y. yr ymgeisydd.

Ffigur 3: Gyda phwy yr oedd y plentyn ieuengaf yn byw ar adeg y cais, ar gyfer ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018



Mae'r patrymau hyn yn eithaf sefydlog dros amser, er y bu cynnydd bach yn nifer yr achosion mamau preswyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel ymgeisydd ac ymatebwr. Mae'r patrwm gofal presennol yn arwain at oblygiadau amlwg i ymgyfreitha, gan fod mwyafrif y ceisiadau'n cael eu gwneud gan dadau. Dychwelwn at hyn ym Mhennod 6.

Oedran, rhywedd a maint grŵp brodyr a chwiorydd

Yn yr un modd â gwaith ymchwil blaenorol (Harding a Newnham 2015; Jay et al. 2019), ni chanfuom dystiolaeth bod rhywedd plant yn dylanwadu ar ymgyfreitha. Roedd nifer gyfartal o fechgyn a merched yn ymwneud ag ymgyfreitha yng Nghymru, mewn achosion a ddygwyd gan dadau a mamau.

Fel plant tebyg iddynt yn Lloegr, roedd y plant a oedd yn gysylltiedig ag achosion yn ifanc yn gyffredinol. Yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus, lle'r oedd bron traean (30%) o'r plant mewn achosion gofal yng Nghymru rhwng 2011 a 2018 yn iau na blwydd oed (Alrouh et al. 2019), roedd nifer gymharol fach o fabanod. Roedd oddeutu 8% o'r plant ieuengaf mewn achosion cyfraith breifat yn iau na blwydd oed ar adeg y cais (Tabl 2), sydd ychydig yn uwch

¹⁷ Nid yw Cafcass Cymru yn cofnodi ble y mae'r plentyn yn byw ar adeg y cais. Fodd bynnag, gallwn gasglu hyn trwy ddefnyddio manylion yr ardal leol fach (ardal gynnyrch ehangach haen is, LSOA) lle'r oedd yr ymgeisydd, yr ymatebwr a'r plentyn yn byw, yn seiliedig ar manylion cofrestru â meddyg teulu. Rydym wedi gwneud hyn ar gyfer y plentyn ieuengaf mewn achosion lle'r oedd mwy nag un plentyn. Roedd y mesur hwn ar goll ar gyfer 22% o geisiadau, gan fod angen i ALF fod ar gael ar gyfer yr ymgeisydd, yr ymatebwr a'r plentyn ieuengaf.

na'r 5–6% a adroddwyd mewn achosion cyfraith breifat yn Lloegr (Jay et al. 2019). O ran mwyafrif y ceisiadau – oddeutu pedwar o bob pump – roedd y plentyn ieuengaf rhwng un a naw mlwydd oed, sy'n debyg i'r patrwm yn Lloegr unwaith eto (Jay et al. 2019). Gostyngodd canran y plant 1-4 oed yn ystod y cyfnod, a chynyddodd cyfran y plant 5-9 oed. Mae'n rhaid cofio y gallai plant eraill, hŷn, fod wedi'u cynnwys mewn achosion sy'n ymwneud â grŵp brodyr a chwiorydd.

Tabl 2: Oedran y plentyn ieuengaf mewn ceisiadau rhieni safonol (canrannau), 2011–2018

Oedran	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Iau na blwydd oed	7.9	8.2	8.4	7.9	6.9	7.3	8.3	8.1
1–4 oed	46.7	46.6	45.8	45.5	43.1	43.4	42.2	41.2
5–9 oed	35.0	34.5	36.3	36.1	39.6	38.8	38.9	38.6
10 oed a hŷn	10.4	10.7	9.5	10.4	10.4	10.5	10.6	12.0
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0

Roedd bron dwy ran o dair (63–67%) o achosion yn ymwneud ag un plentyn, ac roedd chwarter arall (25–28%) yn ymwneud â dau sibling (Tabl 3). Dim ond oddeutu 9% o achosion bob blwyddyn oedd yn ymwneud â grŵpiau o dri neu fwy o frodyr a chwiorydd. Mae'r patrwm hwn yn atgynhyrchu canfyddiadau cynharach ynglŷn â grŵpiau cymharol fach o frodyr a chwiorydd mewn achosion yn Lloegr (Jay et al. 2019). Mae'r patrwm yn eithaf cyson dros amser ar draws y data ar gyfer Cymru.


Tabl 3: Nifer y plant mewn ceisiadau rhieni safonol (canrannau), 2011–2018

Nifer	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
1	65.2	65.4	66.5	64.8	65.1	66.0	65.1	62.9
2	25.9	26.2	25.4	28.1	27.2	25.8	27	28.4
3	6.9	6.5	6.4	5.4	6.5	6.3	6.2	7.4
4+	2.0	1.9	1.8	1.7	1.2	1.8	1.6	1.4
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0

Mae'r nifer fawr o blant unigol ifanc sy'n destun ymglyfreitha yn arwain at oblygiadau i ymarfer, yn enwedig o ran y cymorth sydd ar gael i blant. Mae tystiolaeth gadarn iawn bod gwrthdaro rhwng rhieni sy'n fynych, yn ddwys, heb ei ddatrys yn dda ac sy'n ymwneud â'r plentyn yn gysylltiedig â chanlyniadau negyddol lluosog i blant (Acquah et al. 2017; Grych a Fincham 1990; Harold et al. 2016). Gallai'r perygl hwnnw fod yn waeth i blant unigol nad oes ganddynt frodyr a chwiorydd i'w hamddiffyn. Mae'r un peth yn wir am y plant unigol hynny sy'n profi cam-drin domestig heb gymorth brawd neu chwaer.


Mae rhai gwahaniaethau bach ym mhroffiliau plant mewn ceisiadau a ddygir gan dadau a mamau. Mae ceisiadau gan famau yn ymwneud â chyfrannau ychydig yn uwch o grwpiau mwy o frodyr a chwiorydd (Ffigur 4), sy'n ganfyddiad sefydlog ar hyd y cyfnod – roedd 10-14% o geisiadau a wnaed gan famau yn ymwneud â thri neu fwy o blant, o gymharu â 7-9% o geisiadau a wnaed gan dadau.

Ffigur 4: Nifer y plant mewn ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018



O ran oedran y plentyn ieuengaf sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat, roedd cyfran ychydig yn uwch o achosion a ddygwyd gan dadau yn cynnwys plentyn ifanc (iau na blwydd oed, neu rhwng un a phedair blwydd oed), ac roedd y plentyn ieuengaf mewn ceisiadau gan famau yn fwy tebygol o fod yn ddeng mlwydd oed neu'n hŷn. Mae cyfran y plant yn y grwpiau oedran ieuengaf wedi gostwng ychydig ers 2014 mewn ceisiadau a wnaed gan dadau (Ffigur 5).

Ffigur 5: Oedran y plentyn ieuengaf mewn ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018




Proffilio'r oedolion

Mae'r wybodaeth yng nghronfa ddata Cafcass Cymru am yr oedolion sy'n ymwneud ag achosion yn gymharol brin, y tu hwnt i oedran a rhywedd.

Roedd mwyafrif y mamau a'r tadau yn eu hugeiniau hwyr a'u tridegau, ac roedd dynion ychydig yn hŷn na menywod (Ffigur 6), nad yw'n annhebyg i rieni yn y boblogaeth gyffredinol. Yn ystod y cyfnod, roedd 69-73% o dadau a 79-84% o famau yn iau na 40 oed. Mae hefyd yn ymddangos bod canran yr ymgeiswyr iau na 25 oed wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn enwedig felly o ran tadau, lle y gwelir gostyngiad ymddangosiadol ar ôl LASPO. Yn 2011, roedd 13% o dadau a 22% o famau yn iau na 25 oed – erbyn 2018, roedd hyn wedi gostwng i 6% a 12%, yn y drefn honno.

Ffigur 6: Oedran ymgeiswyr mewn ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018



Fel sy'n gyffredin mewn cymdeithas yn y Gorllewin, roedd mwyafrif y cyn-berthnasoedd rhwng partïon o oedran tebyg. Canfuom fod dwy ran o dair (65%) o geisiadau yn ymwneud â rhieni a oedd o fewn pedair blynedd o'i gilydd o ran oedran, ac roedd hyn yn batrwm cyson dros amser.

Amddifadedd ac ymddangosiad posibl bwlch cyfiawnder

Mae statws economaidd-gymdeithasol, fel y mae gwaith ymchwil cyhoeddus yn ei ddangos, yn effeithio ar straen mewn teuluoedd a chwaliad teuluoedd – sbardun posibl ar gyfer anghydfodau cyfraith breifat ac adeg bosibl i ymyrryd er mwyn atal anghydfodau rhag dechrau neu waethygu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cryn bwyslais ar dlodi ac amddifadedd fel ffactor achosol allweddol mewn achosion cyfraith gyhoeddus neu amddiffyn plant (Elliott 2020). Yn ogystal, ceir corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n dangos bod achosion cyfraith gyhoeddus wedi'u crynhoi yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru a Lloegr (Alrouh et al. 2019; Bywaters et al. 2016; Harwin ac Alrouh 2017). Mewn cyferbyniad, ychydig iawn o bwyslais a fu ar statws economaidd-gymdeithasol fel ffactor perthnasol mewn achosion plant cyfraith breifat, tan i waith archwiliol gael ei wneud gan y tîm ymchwil hwn (Johnson et al. 2020). Her fethodolegol yw hyn yn rhannol, gan na fu gwybodaeth ar gael yn rhwydd ar ffeiliau llys i ymchwilyr. Gallai hefyd adlewyrchu canfyddiad mai


dadleuon rhwng oedolion 'yn unig' yw anghydfodau cyfraith breifat, yn hytrach na'u bod yn adlewyrchu neu'n gysylltiedig â ffactorau straen economaidd (neu, yn wir, yn adlewyrchu neu'n gysylltiedig â cham-drin domestig).

Gwnaed rhai awgrymiadau'n flaenorol y gallai rhieni cyfraith breifat fod dan fwy o anfantais yn economaidd na'r boblogaeth ehangach. Mae'r gwaith hwn wedi amlygu lefelau incwm is (Goisis et al. 2016), lefelau gwaith is (Trinder et al. 2005), a lefel alwedigaethol is (Blackwell a Dawe 2003).

Trwy gysylltu data Cafcass Cymru â data demograffig a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), bu'n bosibl sefydlu cysylltiad clir rhwng amddifadedd ac achosion cyfraith breifat, gan ddatblygu'r dadansoddiad cychwynnol a wnaed gan y tîm (Johnson et al. 2020) trwy archwilio tueddiadau dros amser ar gyfer ymgeiswyr, yn ôl rhywedd.¹⁸

Gwneir y mwyafrif helaeth o geisiadau cyfraith breifat gan ymgeiswyr sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru (Ffigur 7). Yn 2018, roedd 29% o dadau a 33% o famau yn byw mewn ardaloedd yn y cwintel mwyaf difreintiedig, ac roedd 51% o dadau a 56% o famau yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig.

Ffigur 7: Cyfran yr ymgeiswyr yn ôl cwintelau amddifadedd lefel ardal, ar gyfer ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018



Nid ffenomen newydd yw'r cysylltiad rhwng y galw am gyfraith breifat ac amddifadedd, er y gallwn weld darlun sy'n newid yn gynnil dros amser (2011-2018) o ran dosbarthiad ceisiadau cyfraith breifat yn ôl cwintelau amddifadedd. Gwnaed cyfran ychydig yn is o geisiadau gan dadau sy'n byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig ar ôl LASPO – gostyngodd o 32-33% rhwng 2011 a 2013 i 27-29% rhwng 2014 a 2018.

Er nad yw'r adroddiad yn ceisio cymharu achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yng Nghymru yn uniongyrchol, mae'r canfyddiadau hyn yn ychwanegu at y darlun cyffredinol o raddau'r angen am gyfiawnder teuluol yng Nghymru yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

¹⁸ O ganlyniad i gyfraddau cyfateb ALF ac argaeledd cofnodion yn WDSD, roedd y mesur hwn ar goll ar gyfer ymgeiswyr mewn 17% o geisiadau (gweler yr atodiad am fanylion).

Mae achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat yn aml yn cael eu cyfrif, eu rheoli neu eu dadansoddi ar wahân, ac eto dim ond trwy gysylltu'r ddau y gallwn sylweddoli graddau llawn yr angen am gymorth sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol. O ystyried y dystiolaeth newydd hon, credwn ei bod yn bwysig cysyniadoli cyfraith breifat yn nhermau'r angen am gefnogaeth a chymorth, y tu allan a'r tu mewn i'r llysoedd.

Yn ein barn ni, mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd economaidd a cheisiadau plant cyfraith breifat wedi'i sefydlu'n gadarn. Mae'n hollbwysig bod y system cyfiawnder teuluol yn cydnabod hyn ac yn dechrau ystyried sut y gellir mynd i'r afael ag effaith amddifadedd.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o fwllch cyfiawnder?

Mae ein gallu i olrhain patrymau defnydd dros gyfnod hir yn rhoi cyfle i weld a yw unrhyw grwpiau'n fwy neu'n llai tebygol o ymwneud ag achosion. O ran cyfraith breifat, mae effaith y newidiadau i gymorth cyfreithiol yn 2013 o ddiddordeb arbennig. Hyd yma, ni fu'n bosibl cymharu proffiliau achosion cyn ac ar ôl LASPO, ond mae ein defnydd o ddata Cafcass Cymru yn ein galluogi i wneud hynny.

Byddai'r ddau newid a amlygwyd uchod, yng nghymhareb y ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, a chyfran yr ymgeiswyr iau, yn gyson â 'bwllch cyfiawnder', lle nad yw rhai rhannau o'r boblogaeth a fuasai'n gymwys am gymorth cyfreithiol yn flaenorol, o bosibl, yn gallu fforddio dwyn ceisiadau cyfraith breifat mwyach (Hunter 2014). Gallai'r newid bach tuag at fwy o geisiadau gan famau adlewyrchu'r ffaith bod cymorth cyfreithiol yn parhau i fod ar gael ar gyfer rhai dioddefwyr trais domestig, sy'n fwy tebygol o fod yn fenywod (y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019). Efallai bod rhieni iau yn llai tebygol na rhai hŷn o allu fforddio dwyn achos heb gymorth cyfreithiol. Mae'r data am amddifadedd yn taflu goleuni pellach ar fwllch cyfiawnder posibl. Gwelsom hefyd fod llai o geisiadau'n cael eu gwneud gan dadau sy'n byw yn y cwintelau mwyaf difreintiedig ar ôl LASPO.

Mae'r casgliadau hyn yn betrus, gan fod y data am effaith bosibl LASPO yn gyfyngedig. Felly, byddai angen dadansoddi a thrafod ymhellach gyda rhanddeiliaid a chymunedau cyn dod i unrhyw gasgliadau pendant. Mae hefyd yn bwysig nodi bod preswyliaeth a chyswllt wedi cael eu disodli â CAOs tua'r un adeg â'r newidiadau i gymorth cyfreithiol. Gallai hyn gymhlethu'r darlun i ryw raddau.

Daearyddiaeth yr angen am gyfraith breifat


Ond nid yw datgelu dosbarthiad achosion cyfraith breifat yn ôl cwintelau amddifadedd yn ateb y cwestiwn: *ble mae teuluoedd cyfraith breifat yn byw?* Yn wahanol i gyfraith gyhoeddus, lle mae penderfyniadau i ddwyn achos llys yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol, mae penderfyniadau ynglŷn ag ymgysylltu mewn cyfraith breifat yn cael eu gwneud gan unigolion preifat, er hynny gyda chynghor gan gyfreithwyr ac eraill yn aml. Fodd bynnag, dylai datgelu daearyddiaeth cyfraith breifat fel angen am gymorth lywio unrhyw strategaethau cynorthwyol, y tu mewn neu'r tu allan i'r llys. Yn syml, mae angen i wasanaethau fod yn yr ardaloedd iawn i fodloni anghenion.

Gwnaethom gyfrifo cyfraddau mynychder (cyfanswm y ceisiadau cyfraith teulu breifat fesul 10,000 o aelwydydd teulu) ar gyfer y tair ardal Barnwr Teulu Dynodedig (DFJ) yng Nghymru: Gogledd Cymru; Abertawe a De-orllewin Cymru; a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru.

Cyfrifwyd cyfraddau mynychder yn hytrach nag amllder, oherwydd gellir gwneud cymhariaeth ystyrlon dim ond trwy addasu i faint y boblogaeth gyffredinol. Mae gwaith yn y dyfodol yn bwriadu ystyried daearyddiaeth yr angen am gyfraith breifat yn fanylach.

Gwelodd y tair ardal DFJ gyfraddau mynychder cyfnewidiol ond a oedd yn cynyddu'n raddol rhwng 2007 a 2013, ac yna gostyngiad rhwng 2013 a 2014 (o ganlyniad i gyflwyno LASPO). Wedi hynny, dychwelodd y cyfraddau i duedd fwy sefydlog o gynyddu, er bod cyfraddau yn y tair ardal DFJ wedi dechrau amrywio ar ôl LASPO (Ffigur 8).

Ffigur 8: Cyfradd y ceisiadau cyfraith teulu breifat fesul 10,000 o aelwydydd teulu, yn ôl ardal DFJ, 2007–2018



Yn 2007, roedd 59 o geisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teulu yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru, o gymharu â 71 fesul 10,000 yng Ngogledd Cymru a 74 fesul 10,000 yn Abertawe a De-orllewin Cymru. Roedd y gyfradd mynychder cyn LASPO yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru yn cynyddu'n gyflymach nag yng Ngogledd Cymru neu Abertawe a De-orllewin Cymru, gyda chynnydd cyfartalog o flwyddyn i flwyddyn o 11%, 8%, a 7% yn y drefn honno.

Roedd y gostyngiad yn y cyfraddau mynychder yn 2014 yn debyg ym mhob un o'r tair ardal DFJ, sef rhwng 27% a 32%, yna dechreuodd y cyfraddau godi eto. Dychwelodd cyfraddau mynychder y ceisiadau cyfraith teulu breifat i duedd gynyddol ar ôl LASPO, er bod y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn uwch yn Abertawe a De-orllewin Cymru (9%) nag yng Ngogledd Cymru ac yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (3% a 4% yn ôl eu trefn).

Yn 2018, roedd 91 o geisiadau fesul 10,000 o aelwydydd teulu yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru, o gymharu â 71 fesul 10,000 yng Ngogledd Cymru; fodd bynnag, yn Abertawe a De-orllewin Cymru, roedd y gyfradd wedi codi'n uwch o lawer i 110 fesul 10,000 o aelwydydd teulu. Felly, mae'n ymddangos bod yr angen mwyaf am gyfraith breifat yn Abertawe a De-orllewin Cymru, o'i ystyried fel cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd.

Gwelwyd darlun daearyddol tebyg yng nghyfraddau mynychder babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal Adran 31 (Alrouh et al. 2019). Mae chwaliad teuluol sy'n arwain at ymglyfreitha ynglŷn â phlant yn fwyaf amlwg yn ardal DFJ Abertawe a De-orllewin Cymru, p'un a edrychwn arno o safbwynt cyfraith gyhoeddus neu breifat. Gyda'i gilydd, mae'n ymddangos bod teuluoedd yn wynebu mwy o fregusrwydd sy'n gofyn am gymorth

allanol yn yr ardal lys hon. Er bod achosion cyfraith gyhoeddus yn cael eu cychwyn gan y wladwriaeth (awdurdodau lleol) a bod achosion cyfraith breifat yn cael eu cychwyn gan unigolion preifat (tadau dibreswyl, yn nodweddiadol); yr hyn sy'n uno'r ddau fath o achosion yw daearyddiaeth a lefel amddifadedd.

6. Beth y gwneir cais amdano a chan bwy?

Trown yn awr at yr hyn y mae data Cafcass Cymru yn ei ddweud wrthym am y gorchmynion yr oedd y partïon yn gwneud cais amdanynt, gan gyfyngu ein dadansoddiad i achosion rhieni safonol – hynny yw, y rhai hynny sy'n ymwneud â dau oedolyn yn unig y tybiwn yr oeddent yn gwpl yn flaenorol. Byddwn yn archwilio pa orchmynion a geisir gan yr achosion ansafonol mewn adroddiad dilynol.

Mae ein dadansoddiad wedi'i rwystro ryw ychydig yn hyn o beth gan fod gorchmynion cyswllt a phreswyliaeth wedi cael eu disodli gan CAO unigol yn sgil Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Gall CAO bennu p'un a yw'n orchymyn 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda', ac, yn wir, mae Ystadegau Llys Teulu ar gyfer Cymru a Lloegr yn cofnodi CAOs a wnaed fel 'CAO (preswyliaeth)' neu 'CAO (cyswllt)'.¹⁹ Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw Cafcass Cymru yn cofnodi p'un a yw cais yn un 'byw gyda' neu 'dreulio amser gyda'. Er bod hyn yn gywir yn gyfreithiol, collir manylion pwysig wrth wahaniaethu rhwng ceisiadau a wnaed gan ddynion a menywod. Wedi dweud hynny, wrth archwilio patrymau ceisiadau yn ôl rhywedd, bu modd i ni ddefnyddio data cyn 2014 yn ymwneud â gorchmynion preswyliaeth a chyswllt ar wahân.²⁰

Tueddiadau cyffredinol o ran ceisiadau

Mae mwyafrif y ceisiadau cyfraith breifat yn ymwneud â threfniadau plentyn yn bennaf – ble y dylai plentyn fyw a phwy y dylai ei weld (Tabl 4). Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd cyfrannol mewn ceisiadau am y gorchmynion eraill yn ansylweddol ac mae wedi cynyddu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf o 15% o'r holl geisiadau rhieni yn 2011 i oddeutu un o bob tri (30%) yn 2018.

Mae'r cynnydd mewn gorchmynion gorfodi, SIOs a PSOs yn ddatblygiad diddorol. Gellid ystyried bod y tri math o gais yn arwyddion o achosion mwy anodd neu ddadleuol, i'r teuluoedd ac i'r system. Gallai'r cynnydd mewn ceisiadau gorfodi o 2014 ymlaen adlewyrchu mwy o anawsterau wrth wneud i drefniadau cyswllt weithio, efallai yn absenoldeb cyfreithwyr ar ôl LASPO a allai ddod o hyd i lwybrau eraill i fynd i'r afael ag anawsterau cyswllt na gwneud cais gorfodi. Gallai hefyd adlewyrchu'r ystod ehangach o ddewisiadau gorfodi sydd ar gael.

Nid yw'n glir pam mae SIOs a PSOs wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod. Fe allai adlewyrchu patrymau sy'n newid o ran perthnasoedd, yn sgil mwy o deuluoedd trawswladol.²¹ Neu, unwaith eto, fe allai adlewyrchu'r ffaith bod mwy o achosion anoddach a llai o adnoddau cyfiawnder teuluol, yn enwedig cyngor cyfreithiol, i'w ffrwyno a'u dargyfeirio. Awgrymiadau dyfaliadol yw'r rheiny, fodd bynnag. Byddwn yn gwneud mwy o ymchwil

¹⁹ Mae'r defnydd o gyswllt a phreswyliaeth yn anghywir yn nhermau cyfreithiol, ond yn ddefnyddiol yn ddadansoddiad i wahaniaethu achosion.

²⁰ Nid yw'r data cyn 2011 yn ddigon cadarn i'w ddefnyddio yma.

²¹ Lle mae aelodau teulu wedi'u gwasgaru ar draws ffiniau cenedlaethol.

ansoddol i'r maes hwn, o ystyried ein bod yn gwybod cyn lleied am y gorchmynion hyn er gwaethaf eu harwyddocâd cynyddol i deuluoedd a'r system cyfiawnder teuluol.

Tabl 4: Mathau o geisiadau rhieni safonol (canrannau), 2011–2018

Math o gais	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Trefniadau plentyn	84.5	82.9	81.6	74.4	71.9	72.0	72.0	69.5
Gorchymyn cyswllt	57.2	56.6	55.2	16.4	-	-	-	-
Gorchymyn preswyliaeth	17.8	18.0	17.7	7.2	-	-	-	-
Gorchymyn cyswllt a gorchymyn preswyliaeth	9.5	8.3	8.7	3.5	-	-	-	-
Gorchymyn trefniadau plentyn	-	-	-	47.3	71.9	72.0	72.0	69.5
Gorchymyn camau gwaharddedig	5.4	5.2	5.0	6.1	5.9	7.5	7.6	8.3
Gorchymyn mater penodol	4.3	3.4	3.8	3.6	4.8	4.7	5.3	5.1
Gorchymyn gorfodi	3.3	5.0	6.1	10.0	11.0	12.0	10.8	12.0
Arall	2.5	3.4	3.5	5.9	6.4	3.8	4.3	5.1
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0	100.0


Gostyngodd canran yr achosion a oedd yn cynnwys cais am gyfrifoldeb rhieni o 12.8% o geisiadau gan dadau yn 2011 i 0.8% yn unig yn 2015. Mae hyn bron yn sicr o ganlyniad i effaith tymor hir y newidiadau i gyfrifoldeb rhieni a gyflwynwyd gan Adran 111 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Cyn y Ddeddf, roedd rhaid i dadau dibriod wneud cais am gyfrifoldeb rhieni trwy wneud trefniant ffurfiol gyda'r fam neu drwy orchymyn llys. O fis Rhagfyr 2003 ymlaen, rhoddwyd cyfrifoldeb rhieni i dadau dibriod yn awtomatig os enwyd hwy ar dystysgrif geni'r plentyn.

Sut mae ceisiadau a wnaed gan dadau a mamau yn wahanol?

Fel y dangoswyd ym Mluch 1, mae wedi'i hen sefydlu bod patrwm rhywedd penodol i geisiadau mewn cyfraith breifat, sef ceisiadau gan dadau ar gyfer cyswllt yn bennaf. Roeddem yn gallu cadarnhau'r patrwm hwn ar gyfer Cymru gan ddefnyddio data lefel poblogaeth, ond roeddem hefyd yn gallu ymestyn y dadansoddiad i archwilio sut mae rhywedd, a ble mae'r plentyn yn byw, yn gysylltiedig â'r math o gais.

Fel y nodwyd, rhwystrwyd ein dadansoddiad yn rhannol yn sgil disodli gorchmynion cyswllt a phreswyliaeth â CAOs yn 2014. Fodd bynnag, ar gyfer y cyfnod 2011-2014, rydym yn gallu gwahaniaethu rhwng ceisiadau 'byw gyda' a 'threulio amser gyda'. Mae Ffigur 9 yn dangos y mathau o geisiadau a wnaed gan famau a thadau.

Ffigur 9: Mathau o geisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2011–2018



Yn gyffredinol, yn 2011, gallwn weld bod oddeutu saith o bob deg (72%) o geisiadau a wnaed gan dadau yn ymwneud â gorchymyn cyswllt a bod traean (32%) yn ymwneud â gorchymyn preswyliaeth (naill ai'n unigol neu ar y cyd). I'r gwrthwyneb, roedd bron saith o bob deg (69%) o geisiadau a wnaed gan famau yn ymwneud â gorchymyn preswyliaeth ac roedd traean (35%) yn ymwneud â gorchymyn cyswllt. Gwelwyd patrwm tebyg yn 2012 a 2013, pan oedd gwybodaeth ar gael am geisiadau am orchymynion cyswllt a phreswyliaeth. Felly, o fewn cwmipas trefniadau plentyn, roedd tadau'n fwy tebygol o wneud cais am gyswllt ac roedd mamau'n fwy tebygol o wneud cais am breswyliaeth.

Mae rheswm syml dros y gwahaniaeth rhwng y ddau ryw. Gan fod mwyafrif y plant yn byw gyda'u mam ar adeg y cais, byddai mwyafrif y ceisiadau gan dadau yn cael eu gwneud fel y rhiant dibreswyl a oedd yn ceisio (ail)sefydlu cyswllt neu efallai sicrhau preswyliaeth. Rydym yn gwybod o ddadansoddi ffeiliau achos mai un o'r prif resymau pam y mae mamau preswyl yn ceisio gorchymyn yw er mwyn cadarnhau'r sefyllfa bresennol, gan gynnwys lle y ceir pryderon ynglŷn â herwyddio (Harding a Newnham 2015). Ar yr un pryd, bydd nifer fach o geisiadau gan dadau preswyl sy'n ceisio cadarnhau preswyliaeth, a chan famau dibreswyl sy'n ceisio cyswllt neu newid preswyliaeth.

Mae'r ffaith bod cyfran uwch o geisiadau gorfodi yn cael eu gwneud gan dadau i'w disgwyl o ystyried mai hwy sy'n fwyaf tebygol o fod yn rhiant dibreswyl. Mae'n werth nodi bod hyn wedi cynyddu yn ystod y cyfnod (2011–2018). Yn yr un modd, mae'r gyfran uwch o geisiadau SIO a PSO gan famau yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith mai hwy yw'r rhiant preswyl yn y rhan fwyaf o achosion. Nid yw'n glir pam mae'r niferoedd wedi cynyddu. Mae'r rhain yn feysydd lle y byddai dadansoddi ffeiliau achos yn arbennig o ddefnyddiol.

7. Faint o deuluoedd sy'n dychwelyd i'r llys?

Yn yr un modd â chyfraith teulu gyhoeddus, mae mwy o ymwybyddiaeth a rhywfaint o bryder ynglŷn â cheisiadau ailadroddus mewn cyfraith breifat. Yn ystod yr adolygiad cwrpasu ar gyfer Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, roedd un o'r prif faterion a godwyd gan ymarferwyr rheng flaen yn ymwneud â cheisiadau sy'n dychwelyd (Broadhurst et al. 2018). Mae'r pryderon yn driphlyg.

Yn gyntaf, mae ceisiadau ailadroddus yn awgrymu y gallai plant fod yn profi cyfnodau hir mewn trefniadau nad ydynt yn gweithio iddynt, yn ôl pob tebyg. Gallai hynny fod oherwydd bod y trefniadau'n cynyddu neu'n ymestyn amlygiad plant i gam-drin domestig. Gallai fod oherwydd nad yw'r trefniadau'n digwydd (neu nad ydynt yn digwydd mwyach) fel y gorchmynnwyd, oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid, oherwydd bod y gorchmyn gwreiddiol yn amhriodol, neu oherwydd nad yw'r oedolion a/neu'r plant yn cydymffurfio â'r gorchmyn (Trinder et al. 2013; Halliday et al. 2017). Yn y cyd-destun hwn, mae dychwelyd i'r llys yn dangos nad yw'r trefniadau'n gweithio i'r plentyn, yn hytrach na'i fod yn fater sy'n gynhenid broblemus o reidrwydd.

Yn ail, mae ceisiadau ailadroddus yn golygu y bydd plant yn destun ymgyfreitha pellach neu estynedig. Gallai ymgyfreitha fod yn gadarnhaol i'r plentyn, lle mae'n datrys materion neu'n gwella trefniadau. Fodd bynnag, mae angen dybryd i ddatblygu ymateb effeithiol i ymgyfreitha ailadroddus, o ystyried y dystiolaeth gadarn bod gwrthdaro heb ei ddatrys, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn niweidiol (Acquah et al. 2017).

Yn drydydd, mae ymgyfreitha ailadroddus hefyd yn debygol o achosi llawer o straen a phryder i oedolion, gan effeithio nid yn unig ar eu hiechyd meddwl nhw eu hunain, ond efallai hefyd danseilio eu gallu fel rhieni (Whiteside a Becker 2000; Bream a Buchanan 2003; McIntosh a Long 2006; Trinder et al. 2008). O ystyried y dystiolaeth newydd a gyflwynwyd uchod ynglŷn ag amddifadedd, gallai ymgyfreitha ailadroddus ychwanegu rhagor o straen at fywydau rhieni a phlant sydd eisoes dan anfantais sylweddol.

At hynny, mae ymgyfreitha ailadroddus yn cael effaith ar y system cyfiawnder teuluol, gan ychwanegu at y pwysau presennol ar adnoddau. Wedi dweud hynny, cydnabyddir i ryw raddau y gallai ymdrechion diweddar i gyfyngu ar y mewnbwn a'r cymorth a gaiff teuluoedd yn y llys fod wedi cynyddu'r gyfradd ddychwelyd. Yn arbennig, mae'r Gweithgor Cyfraith Breifat wedi holi p'un a yw'r gostyngiad yn nifer y gwrandawiadau adolygu (a gyflwynwyd yn y Rhaglen Trefniadau Plentyn) i gynorthwyo teuluoedd trwy gyfnod o gyswllt cynyddol wedi bod yn wrthgynhyrchiol, gan olygu bod mwy o deuluoedd yn dychwelyd i'r llys pan fo'r trefniadau'n chwalu wedi hynny (y Gweithgor Cyfraith Breifat 2020).

Tystiolaeth bresennol o Loegr

Mae corff o waith ymchwil, sy'n fach ond yn datblygu, ynglŷn â faint o achosion cyfraith breifat sy'n dychwelyd, yn Lloegr ac yn rhyngwladol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai lleiafrif o achosion cyfraith breifat yn unig sy'n dychwelyd i'r llys yn Lloegr. Mae achosion sy'n dychwelyd yn cynrychioli rhwng pumed a thraean o'r achosion, yn y drefn honno (Jay et al. 2019; Halliday et al. 2017). Amcangyfrifir ymhellach bod bron dwy ran o dair o'r rhai sy'n

dychwelyd (63%) yn ailymgyfreitha o fewn dwy flynedd o gau'r achos blaenorol gan Cafcass (Halliday et al. 2017).

Ceir hefyd dystiolaeth bod dychweliadau ailadroddus, neu ymgyfreitha cronig, yn anghyffredin. Dim ond 3% o sampl Halliday o 40,599 o blant a ddychwelodd i'r llys fwy nag unwaith, sy'n gyson â thystiolaeth ryngwladol (gyfyngedig) (Hunt a Trinder 2011). Fodd bynnag, mae cyfnodau arsylwi astudiaethau wedi bod yn gymharol fyr hyd yma, gan gyfyngu ar allu ymchwilyr i gasglu gwybodaeth am ddychweliadau lluosog. Cyfyngiad methodolegol yw hwn y dylai fod modd ei oresgyn trwy fanteisio ar ffynonellau data gweinyddol wrth i ddata wella, yn sgil hirhoedledd a newidiadau cynyddrannol i'r meysydd data a gofnodir.

Deall graddau dychwelyd yng Nghymru

Gallwn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth trwy adrodd ar y gyfradd ddychwelyd yng Nghymru gyda data lefel poblogaeth. Trwy ymestyn ein dadansoddiad y tu hwnt i gwestiynau ynglŷn â graddau, roeddem hefyd yn gallu ymchwilio i batrymau dychwelyd yn ôl rhywedd a rôl ymgyfreitha, fel cam cyntaf tuag at ddeall beth allai fod yn sbarduno achosion i ddychwelyd i'r llys.

I gael syniad o raddau'r achosion sy'n dychwelyd mewn cyfraith breifat, gwnaethom edrych yn ôl ar hanes ymddangosiadau unigolyn mewn ceisiadau cyfraith breifat. Rydym wedi cadw'r un pwyslais ar achosion rhieni safonol gydag un ymgeisydd ac un ymatebwr. O ran ymgeiswyr mewn unrhyw un flwyddyn, gwnaethom ofyn: *a yw'r ymgeisydd hwn wedi ymddangos ar un cais blaenorol o leiaf yn ystod y tair blynedd diwethaf? Os felly, beth oedd ei rôl yn y ceisiadau blaenorol hynny; ymgeisydd yn unig, ymatebwr yn unig, neu'r ddau?*

Mae angen rhesymoli'r data sylfaenol rywfaint i ddefnyddio data gweinyddol ar gyfer cynulleidfaoedd polisi cymhwysol. O ran achosion sy'n dychwelyd, dylai darllenwyr nodi ein bod wedi cynnwys yr holl achosion a ddychwelodd yn ystod y cyfnod tair blynedd ni waeth a) p'un a oedd yr ymgeisydd wedi dychwelyd gyda'r un ymatebwr neu ymatebwr gwahanol; a b) p'un a oedd cais yn gais croes – h.y. gwnaed cais arall yn ystod set gychwynnol o achosion.


Mae lefel gyffredinol yr achosion sy'n dychwelyd yng Nghymru yn debyg i honno a adroddwyd uchod o astudiaethau yn Lloegr – gwnaed rhwng 31% a 34% o geisiadau cyfraith breifat rhwng 2014 a 2018 gan ymgeisydd a fu'n ymwneud â chais blaenorol o fewn y tair blynedd diwethaf. Roedd gan famau gyfradd ddychwelyd ychydig yn uwch, sef rhwng 39% a 43%, o gymharu â rhwng 29% a 32% ar gyfer tadau.

Dechrau dadansoddi pam mae achosion yn dychwelyd

Roeddem hefyd yn gallu craffu ar y berthynas rhwng rhywedd a rôl ymgyfreitha mewn achosion ailadroddus (Ffigur 10). O'r rhai a oedd yn dychwelyd i'r llys rhwng 2014 a 2018, roedd tadau'n fwy tebygol o fod wedi bod yn ymgeisydd mewn cais blaenorol (70–74%) na mamau (24–30%). I'r gwrthwyneb, roedd mamau'n fwy tebygol o fod wedi bod yn ymatebwr mewn cais blaenorol (49–60%) na thadau (12–17%). Roedd cyfran fach o famau a thadau a ddygodd gais cyfraith breifat yn 2014-2018 wedi bod yn ymgeisydd ac yn ymatebwr mewn ceisiadau blaenorol. Felly, mae'n ymddangos bod tadau'n fwy tebygol o lawer o fod yn ymgeiswyr ailadroddus, tra bod mamau'n fwy tebygol o fod yn destun ceisiadau ailadroddus

fel ymatebwyr, neu gyflwyno eu ceisiadau eu hunain ar ôl bod yn destun ceisiadau blaenorol.

Ffigur 10: Rolau ymgyfreitha ymgeiswyr presennol yn ystod y tair blynedd blaenorol, ar gyfer ceisiadau a wnaed gan famau a thadau, 2014–2018



Roeddem hefyd yn gallu archwilio p'un a oedd achosion a oedd yn dychwelyd yn ymwneud â'r un plant neu blant gwahanol, a'r un oedolion neu oedolion gwahanol. Roedd mwyafrif helaeth y rhai a oedd yn dychwelyd (94–96%) wedi bod yn y llys o'r blaen gyda'r un oedolyn a'r un plentyn/plant. Er bod y cyfnod dychwelyd yn eithaf byr, yr un oedolion yn ymgyfreitha ynglŷn â'r un plentyn neu blant oedd y rhain bron bob tro. Fel y nodwyd uchod, mae hyd trefniadau anfoddhaol ac ymgyfreitha estynedig yn debygol o gael effaith niweidiol ar les oedolion a phlant.

Mae llawer mwy o waith i'w wneud i ddeall pam mae achosion yn dychwelyd mewn cyfraith breifat, gan gynnwys y gorchmynion yr ymgeisir amdanynt ac effaith ymgyfreitha ailadroddus ar blant, yn ogystal ag ar oedolion. Mae'n debygol y bydd angen cynnal dadansoddiad ansoddol o ffeiliau achos yng Nghymru i ddeall y sbardunwyr yn llawnach, gan ychwanegu at y gwaith yn Lloegr gan Trinder et al. 2013 a Halliday, Green a Marsh 2017. Bydd modd cynnal dadansoddiad meintiol pellach o'r patrymau dychwelyd yn ystod y blyneddau i ddod wrth i'r ffynonellau data hydredol hyn aeddfedu, yn enwedig i archwilio *pam* mae rhai achosion yn dychwelyd neu'n dychwelyd droeon. Dyma lle y gallai defnyddio data cysylltiedig ar raddfa fawr (iechyd, lles a demograffig pellach) daflu mwy o oleuni ar yr hyn a allai wahaniaethu proffiliau defnyddwyr unigol, ailadroddus, a lluosog (neu gronig). Gallai'r ddealltwriaeth honno hefyd helpu i adnabod ac ymyrryd yn gynharach er mwyn atal yr hyn a fyddai'n achosion cronig fel arall rhag mynd yn hirsefydlog. Mae mentrau cyfraith gyhoeddus sy'n cael eu harwain gan arferion a'u llywio gan dystiolaeth yn dangos bod mentrau atal arloesol yn gallu bod yn effeithiol iawn, lle mae cyfatebiaeth agos rhwng ymchwil a newid arferion, gan gynnwys safbwyntiau sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd.

8. Casgliadau a goblygiadau

Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres ar achosion plant cyfraith breifat. Dyma'r dadansoddiad cyntaf o geisiadau cyfraith breifat yng Nghymru, a'r cyntaf i'w seilio ar ddata lefel poblogaeth, yn hytrach na samplau dadansoddi ffeiliau achos cymharol fach. Mae wedi dangos sut y gellir cael dealltwriaeth lawnach trwy ddefnyddio ymagwedd ehangach a thymor hwy, gan ymestyn y tu hwnt i giplun ar adeg benodol a chysylltu data llysoedd (gan Cafcass Cymru) â ffynonellau data gweinyddol eraill. Bydd y gwaith cysyniadol sydd wrth wraidd y dadansoddiad yn helpu ymchwilwyr eraill i amgyffred natur achosion cyfraith breifat sy'n cael eu trin gan Cafcass Cymru a Cafcass.

Beth mae'r gwaith ymchwil hwn yn ei ychwanegu at yr hyn rydym eisoes yn ei wybod?

Mae ein dadansoddiad wedi cadarnhau canfyddiadau cynharach o Loegr: bod mwyafrif yr achosion cyfraith breifat rhwng dau riant, yn cael eu dwyn gan y rhiant dibreswyl fel arfer, sef y tad gan amlaf, ac yn ymwneud ag un plentyn, sydd fel arfer rhwng un a naw mlwydd oed. Mae'r oedolion sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat yn eu hugeiniau hwyr a'u tridegau yn bennaf.

Yr angen neu'r galw am gyfraith breifat

- Ers 2014, mae cyfradd y ceisiadau cyfraith teulu breifat fesul 10,000 o aelwydydd teulu yng Nghymru wedi cynyddu ychydig, gan adfer i'r lefel cyn LASPO, ac mae'n parhau i gynyddu. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd parhaus yn yr angen am gefnogaeth a chymorth gan y llysoedd teulu dros gyfnod hir.
- Mae ffactorau y tu allan i'r teulu, fel argaeledd cymorth cyfreithiol, yn gallu dylanwadu ar lefel y ceisiadau cyfraith breifat. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod dileu cymorth cyfreithiol wedi gohirio neu oedi ceisiadau yn bennaf, yn hytrach na lleihau lefel yr angen am gymorth yn y tymor hwy.
- Yn gyffredinol, mae'r defnydd o'r llys mewn achosion cyfraith breifat yn isel – mae llai nag 1% o'r holl aelwydydd teulu yn gwneud cais cyfraith breifat bob blwyddyn.

Cyd-destun economaidd-gymdeithasol cyfraith breifat

- Dangosodd y gwaith ymchwil gysylltiad clir rhwng amddifadedd ac achosion cyfraith breifat. Yn 2018, roedd 29% o ddadau a 33% o famau a oedd yn gwneud cais cyfraith breifat yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig, ac roedd 51% o ddadau a 56% o famau yn byw yn y ddau gwintel mwyaf difreintiedig.
- Roedd gostyngiad yng nghyfran y ceisiadau a ddygwyd gan ddadau, gan ymgeiswyr iau, a chan ddadau sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o 2013 ymlaen. Mae hyn yn gyson ag ymddangosiad 'bwlch cyfiawnder' yn dilyn dileu cymorth cyfreithiol o achosion cyfraith breifat yn 2013, heblaw ar gyfer rhai dioddefwyr cam-drin domestig.

- Mae lefelau angen a thueddiadau yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol, yn yr un modd ag achosion plant cyfraith gyhoeddus, a gwelir y cyfraddau uchaf o geisiadau cyfraith teulu breifat yn Abertawe a De-orllewin Cymru.
- Mae mwyafrif y ceisiadau cyfraith breifat yn ymwneud â ble y dylai plentyn fyw a phwy y dylai ei weld. Fodd bynnag, bu cynnydd cyfrannol mewn ceisiadau am y gorchmynion eraill (gorfodi, camau gwaharddedig, a materion penodol) yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf – roedd y rhain yn cynrychioli 15% o'r holl geisiadau rhieni yn 2011, gan gynyddu i oddeutu un o bob tri (30%) yn 2018. Mae hyn yn newid eithaf sylweddol i lwyth gwaith y system cyfiawnder teuluol. Gallai hefyd adlewyrchu cynnydd mewn achosion mwy heriol neu ddadleuol, o gymharu ag achosion trefniadau plentyn.
- Gallai'r cynnydd mewn ceisiadau gorfodi o 2014 ymlaen adlewyrchu mwy o anawsterau wrth wneud i drefniadau cyswllt weithio, efallai yn absenoldeb cyfreithwyr ar ôl LASPO a allai ddod o hyd i lwybrau eraill i fynd i'r afael ag anawsterau cyswllt na gwneud cais gorfodi.
- Yn unol â gwaith blaenorol, mae tua thraean o'r ceisiadau'n rhai sy'n dychwelyd i'r llys. Mae mamau ychydig yn fwy tebygol o ddychwelyd i'r llys. Mae tadau'n fwy tebygol o fod yn ymgeiswyr ailadroddus, tra bod mwy o famau'n debygol o fod yn destun ceisiadau ailadroddus neu gyflwyno eu ceisiadau eu hunain ar ôl bod yn destun cais blaenorol.

Goblygiadau i bolisi ac arferion

Er bod y rhaglen waith hon ar blant cyfraith breifat yn ei dyddiau cynnar o hyd, mae'n ymddangos bod pedwar goblygiad clir yn dod i'r amlwg ar gyfer llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau.

- Mae effaith amddifadedd yn dra chyfarwydd bellach mewn achosion plant cyfraith gyhoeddus. Mae'r ddealltwriaeth hon yn wahanol iawn o ran achosion cyfraith breifat. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi dangos bod achosion cyfraith breifat hefyd yn cynnwys nifer anghymesur o bobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae'n hollbwysig bod llunwyr polisïau'n rhoi ystyriaeth briodol i rôl amddifadedd fel ffactor mewn achosion cyfraith breifat. Gallai'r pwyslais presennol ar ddargyfeirio'r hyn sydd weithiau'n cael ei bortreadu fel anghydfodau eithaf dibwys fychanu rôl amddifadedd fel ffactor achosol posibl o ran yr angen am gyfraith breifat, a rhwystr posibl rhag defnyddio gwasanaethau ataliol. Mae angen deall mwy am rôl amddifadedd a sut mae'n rhyngweithio â ffactorau eraill fel gwrthdaro, cam-drin domestig, ac amddiffyn plant. Bydd hyn yn gam allweddol wrth lywio – ac efallai ailffurfio – yr ymateb i'r angen am gyfraith breifat yn y llys a'r tu allan i'r llys.
- Amlygodd y gwaith ymchwil rywfaint o ostyngiad mewn ceisiadau cyfraith breifat gan dadau, gan ymgeiswyr iau a chan y rhai hynny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn dilyn diwygiadau LASPO. Dyma'r dystiolaeth empirig fanwl gyntaf o 'fwlch cyfiawnder' o ran mapio patrymau ceisiadau yn ôl ffactorau demograffig cyn ac ar ôl LASPO. Argymhellwn fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu'r dystiolaeth hon, ochr yn ochr â dadansoddiadau eraill a allai fod ganddi, i fyfyrir ar b'un a yw mynediad at gyfiawnder yn cael ei rwystro a beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â hynny.

- Fel y nodwyd, mae mwyafrif yr achosion cyfraith breifat yn ymwneud ag un plentyn neu ddau sibling. Bydd cymorth brodyr a chwiorydd, y ceir cryn dystiolaeth i ddangos ei fod yn rhoi cydnerthedd i blant, ar goll mewn nifer fawr o achosion cyfraith breifat. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghydfod rhwng oedolion, mae'r gwaith ymchwil yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod cymorth ar gael i blant.
- Dyluniwyd cronfa ddata Cafcass Cymru i fodloni gofynion gweithredol, yn hytrach na hwyluso ymchwil. Wedi dweud hynny, mae nifer o welliannau y gellid eu gwneud i ansawdd a chwmpas y data a fyddai'n hwyluso ymchwil ac yn gwella effeithiolrwydd sefydliadol heb ddefnyddio llawer o amser ac adnoddau. Yn arbennig, argymhellwn fod Cafcass Cymru, ar y cyd â Cafcass Lloegr yn ddelfrydol, yn cofnodi p'un a oes honiadau o gam-drin domestig a phryderon diogelu eraill, perthynas pob oedolyn â'r plentyn ac oedolyn arall/oedolion eraill, ac, yn ddelfrydol, trefniadau byw'r plentyn ar adeg y cais. Byddai hefyd yn fuddiol pe byddai 'treulio amser gyda' neu 'fyw gyda' yn cael ei gofnodi ar CAOs. Mae ffurflen 'cau achos', i gofnodi rhywfaint o'r wybodaeth hon, wrthi'n cael ei threialu yn ardal lys Gogledd Cymru.

Goblygiadau i waith ymchwil a'r camau nesaf

Mae rhestr hir o gwestiynau i'w harchwilio ar yr adeg hon o'r rhaglen ymchwil. Dyma'r rhai pwysicaf.

- Mae Cafcass Cymru yn derbyn dros 3,000 o geisiadau cyfraith breifat bob blwyddyn. Mae diddordeb cynyddol mewn ceisio gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o achosion er mwyn teilwra ymyriadau i nodweddion achos penodol. Mae'r Gweithgor Cyfraith Breifat yn bwriadu cyflwyno tri llwybr – ar gyfer achosion diogelu, achosion nad ydynt yn ymwneud â diogelu ac achosion sy'n dychwelyd. Fodd bynnag, bydd esblygiad ac effeithiolrwydd unrhyw ddull brysennu neu wedi'i deilwra yn dibynnu ar sylfeini empirig cadarn. Felly, bydd camau nesaf y rhaglen ymchwil hon yn treiddio'n ddyfnach i wahanol fathau o achosion, yn enwedig achosion ansafonol na wnaed llawer o waith ymchwil ynglŷn â nhw'n flaenorol: y rhai hynny sydd â dau ymgeisydd neu fwy a/neu ddau ymatebwr neu fwy; a'r rhai hynny sy'n cynnwys gorchmynion heblaw ar gyfer trefniadau plentyn.
- Mae'r adroddiad cyntaf hwn wedi canolbwyntio ar broffilio demograffig yn unig. Bydd adroddiadau diweddarach yn archwilio bregusrwydd plant ac oedolion sy'n ymuno â'r system cyfiawnder teuluol, eu llwybrau, eu profiadau a'u canlyniadau.
- Rydym hefyd yn bwriadu gwneud gwaith manwl ar ddeall achosion sy'n dychwelyd, gan ychwanegu at ddadansoddiadau ffeil achos bach i archwilio *pa achosion sy'n dychwelyd a pham*, yn enwedig pam mae nifer fach iawn yn dychwelyd droeon. Gallai defnyddio ffynonellau mawr o ddata cysylltiedig daflu mwy o oleuni ar yr hyn a allai wahaniaethu proffiliau defnyddwyr unigol, ailadroddus, a lluosog (neu gronig). Gallai'r dadansoddiad hwnnw hefyd helpu i ddatblygu dulliau adnabod ac ymyrryd cynharach i atal yr hyn a fyddai'n achosion cronig fel arall rhag mynd yn hirsefydlog.
- Mae'r adroddiad cyntaf hwn wedi amlygu potensial a chyfyngiadau data gweinyddol. Roeddem yn gallu edrych y tu hwnt i gofnodion Cafcass Cymru i ddeall mwy am

amgylchiadau economaidd-gymdeithasol teuluoedd trwy ddefnyddio data cysylltiedig. Ar yr un pryd, nid yw rhai o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n ffurfio achosion cyfraith breifat a'u canlyniadau ar gael o'r set ddata feintiol a gynhelir gan Cafcass Cymru. Y bwch mwyaf arwyddocaol o bell ffordd yw absenoldeb data am gam-drin domestig, sy'n bresennol mewn oddeutu hanner yr achosion yn ôl astudiaethau ffeil achos llai. Felly, bydd gwaith yn y dyfodol yn archwilio'r posibilrwydd o gysylltu mwy o ddata, gan ychwanegu at y data cyswllt am amddifadedd, yn ogystal â'r posibilrwydd o gynnal gwaith ansoddol dwys, ategol yn seiliedig ar ddadansoddi ffeiliau achos.

Cyfeiriadau

Acquah, D., Sellers, R., Stock, L. a Harold, G. (2017). *Inter-parental conflict and outcomes for children in the contexts of poverty and economic pressure*. Llundain: Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar.

Agresti, A. (2002). *Categorical Data Analysis*. Hoboken, New Jersey: John Wiley & Sons.

Alrouh, B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L., Johnson, R.D., Akbari, A. a Ford, D. (2019). *Mewn gofal o'u geni: babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Blackwell, A. a Dawe, F. (2003). *Non-resident parental conflict*. Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Bream, V. a Buchanan, A. (2003). Distress among children whose separated or divorced parents cannot agree arrangements for them. *British Journal of Social Work*, 33(2).

Broadhurst, K., Budd, T. a Williams, T. (2018). *The Nuffield Family Justice Observatory for England and Wales: Making it happen*. Llundain: Sefydliad Nuffield.

Broadhurst, K. a Williams, T. (2019). Harnessing the power of data to improve family justice: A new Nuffield Family Justice Observatory for England and Wales. *Family Court Review*, 57(3).

Bywaters, P., Brady, G., Sparks, T. a Bos, E. (2016). Inequalities in child welfare intervention rates: the intersection of deprivation and identity. *Child & Family Social Work*, 21(4).

Cafcass/Cymorth i Ferched. (2017). *Allegations of domestic abuse in child contact cases*. Llundain: Cymorth i Ferched/Cafcass.

Cassidy, D. a Davey, S. (2011). *Family justice children's proceedings - review of public and private law case files in England & Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Elliott, M. (2020). Child welfare inequalities in a time of rising numbers of children entering out-of-home care. *British Journal of Social Work*, 50(2).

Ford, D. V, Jones, K.H., Verplancke, J.P., Lyons, R.A., John, G., Brown, G., Brooks, C.J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9.

Goisis, A., Ozcan, B. a Sigle, W. (2016). *Child outcomes after parental separation : variations by contact and court involvement*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Grych, J.H. a Fincham, F.D. (1990). Marital conflict and children's adjustment: A cognitive-contextual framework. *Psychological Bulletin*, 108(2).

Halliday, E., Green, R. a Marsh, B. (2017). *Private law cases that return to court: a Cafcass study*. Llundain: Cafcass.

Harding, M. a Newnham, A. (2015). *How do county courts share the care of children between parents?* Coventry: Prifysgol Warwick.

Harold, G., Acquah, D., Sellers, R. a Chowdry, H. (2016). *What works to enhance inter-*

parental relationships and improve outcomes for children. Llundain: Y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar.

Harwin, J. ac Alrouh, B. (2017). New entrants and repeat children: continuity and change in care demand over time. *Family law*, 47(4).

Haux, T., Platt, L. a Rosenberg, R. (2015). *Parenting and post-separation contact: what are the links?* Llundain: Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol.

Hodges, H. a Bristow, D. (2019). *Dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y cyfraddau uchel o ofal yng Nghymru: Papur Gwybodaeth*. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hothorn, T., Hornik, K., Wiel, M.A. van de a Zeileis, A. (2008). Implementing a class of permutation tests: the coin package. *Journal of Statistical Software*, 28(8).

Hunt, J. a Macleod, A. (2008). *Outcomes of applications to court for contact orders after parental separation or divorce*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Hunt, J. a Trinder, L. (2011). *Chronic litigation cases: characteristics, numbers, interventions*. Llundain: Y Cyngor Cyfiawnder Teuluol.

Hunter, R. (2014). Exploring the LASPO gap. *Family Law*, 44.

Jay, M.A., Pearson, R., Wijlaars, L., Olhede, S. a Gilbert, R. (2019). *Using administrative data to quantify overlaps between public and private children law in England: Report for the Ministry of Justice on the Children in Family Justice Data Share pilot*. Llundain.

Johnson, R.D., Ford, D. V, Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K., Akbari, A., Bedston, S., Alrouh, B., Doeblner, S., Lee, A., Smart, J., Thompson, S., Trinder, L. a Griffiths, L.J. (2020). Data Resource: population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1).

Jones, K.H., Ford, D. V, Jones, C., Dsilva, R., Thompson, S., Brooks, C.J., Heaven, M., Thayer, D.S., McNerney, C.L. a Lyons, R.A. (2014). A case study of the secure anonymous information linkage (SAIL) gateway: A privacy-protecting remote access system for health-related research and evaluation. *Journal of Biomedical Informatics*, 50.

Jones, K.H., Ford, D.V., Thompson, S. a Lyons, R. (2019). A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform. *International Journal of Population Data Science*, 4(2).

Lader, D. (2008). *Non-resident parental conflict 2007/08. Omnibus Survey Report No. 38*. Casnewydd: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Lyons, R.A., Jones, K.H., John, G., Brooks, C.J., Verplancke, J.P., Ford, D. V, Brown, G. a Leake, K. (2009). The SAIL databank: Linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, 9(1).

McCullagh, P. a Nelder, J.A. (1989). *Generalized Linear Models*. 2il argraffiad. Llundain: Chapman & Hall.

McFarlane, A. (2019a). *View from The President's Chambers, December 2019*.

McFarlane, A. (2019b). *Living in interesting times: Keynote address to Resolution Conference*.

McFarlane, A. (2020). *The Family Court and COVID-19: The Road Ahead*.

McIntosh, J. a Long, C. (2006). *Children beyond dispute : a prospective study of outcomes from child focused and child inclusive post-separation family dispute resolution. Final report*. Canberra, ACT: Adran y Twrnai Cyffredinol.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. (2020). *Legal aid statistics in England and Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2020a). *Family court statistics quarterly, England and Wales, January to March 2020*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2020b). *Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases - Final Report*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2020c). *Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases - Implementation Plan*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2020d). *Family court statistics quarterly, England and Wales, October to December 2019 including 2019 annual trends*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). *Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2018*.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2012). *2011 Census - Office for National Statistics*.

Peacey, V. a Hunt, J. (2008). *Problematic contact after separation and divorce? A national survey of parents*. Llundain: Sefydliad Nuffield a One Parent Families/Gingerbread.

Y Gweithgor Cyfraith Breifat. (2019). *A review of the Child Arrangement Programme [PD12B FPR 2010]*. Llundain: Adroddiad i Lywydd yr Is-adran Deuluoedd, yr Uchel Lys Cyfiawnder.

Y Gweithgor Cyfraith Breifat. (2020). *Private law: Family disputes - the time for change, the need for change, the case for change*. Llundain: Ail adroddiad i Lywydd yr Is-adran Deuluoedd, yr Uchel Lys Cyfiawnder.

Tîm Craidd R. (2019). *R: A Language And Environment For Statistical Computing*. Fienna: Sefydliad R ar gyfer Cyfrifiadura Ystadegol.

Summerfield, A. a Freeman, L. (2014). *Public experiences of and attitudes towards the family justice system*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Trinder, L., Connolly, J., Kellett, J. a Notley, C. (2005). *A profile of applicants and respondents in contact cases in Essex*. Llundain: Yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

Trinder, L., Hunt, J., Macleod, A., Pearce, J. a Woodward, H. (2013). *Enforcing contact orders: problem-solving or punishment?* Caerwysg: Ysgol y Gyfraith Caerwysg

Trinder, L., Hunter, R., Hitchings, E., Miles, J., Moorhead, R., Smith, L., Sefton, M., Hinchly, V., Bader, K. a Pearce, J. (2014). *Litigants in person in private family law cases*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Trinder, L., Kellett, J. a Swift, L. (2008). The relationship between contact and child adjustment in high conflict cases after divorce or separation. *Child and Adolescent Mental Health*, 13(4).

Llywodraeth Cymru. (2019). *Amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru, canol 2018*.

Whiteside, M.F. a Becker, B.J. (2000). Parental factors and the young child's postdivorce adjustment: A meta-analysis with implications for parenting arrangements. *Journal of Family Psychology*, 14(1).

Wickham, H. et al. (2019). Welcome to the Tidyverse. *Journal of Open Source Software*, 4(43).

Williams, T. (2018). *What could a public health approach to family justice look like?* Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Atodiad

Dyluniad yr astudiaeth

Roedd yr astudiaeth hon yn dadansoddi tueddiadau blynyddol wedi'u cydgrynhoi ar lefel y boblogaeth mewn ceisiadau a wnaed i'r llysoedd teulu preifat yng Nghymru rhwng 2007 a 2018. Ystyriwyd tueddiadau yn ymwneud â: chyfradd y ceisiadau ledled Cymru, yn ogystal ag ar draws y tair ardal barnwr teulu dynodedig (DFJ): pa orchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt; nodweddion gweinyddol pwy oedd yn gysylltiedig: ymgeiswyr, ymatebwyr a'r plant dan sylw; a pha gyfran o ymgeiswyr bob blwyddyn a fu'n ymwneud â chais yn flaenorol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Ffynonellau data

Ar gyfer pob ffynhonnell data ym Manc Data SAIL, mae data adnabyddadwy pob unigolyn yn cael ei ddileu a'i anonymeiddio i roi dyfais adnabod unigryw, a adwaenir fel maes cyswllt dienw (ALF). Ar gyfer y rhai hynny sy'n cael eu paru'n llwyddiannus, mae hyn yn golygu y gellir cysylltu cofnodion o ffynonellau data gwahanol o fewn SAIL gan gadw'r data'n ddienw. Disgrifir methodoleg anonymeiddio a chysylltu SAIL yn fanylach gan Lyons et al. (2009). Mae'r holl ddata ym Manc Data SAIL yn cael ei drin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Y brif ffynhonnell data ar gyfer yr astudiaeth hon oedd data rheoli achosion Cafcass Cymru sydd ar gael o fewn SAIL (mae rhagor o fanylion am ddata Cafcass Cymru ar gael yn Johnson et al. 2020). Defnyddir ffynonellau data eraill i ddeillio ac ychwanegu gwybodaeth at ddata Cafcass Cymru.

Cafcass Cymru

Rhoddodd Cafcass Cymru ddata o'i gofnodion rheoli achos gweinyddol yn ymwneud ag achosion llys teulu cyhoeddus a phreifat yng Nghymru i SAIL. Mae Cafcass Cymru yn ymwneud â gwaith ar bob cais cyfraith breifat cyn ac yn cynnwys gwrandawriad llys cyntaf. Fodd bynnag, dylid nodi bod Cafcass Cymru yn ymwneud â gwrandawriadau dilynol mewn achosion penodol yn unig, megis lle y ceir pryderon ynglŷn â lles plentyn ac mae'r llys wedi cyfarwyddo gwaith pellach neu wedi penderfynu penodi gwarcheidwad plant o dan adran 16.4 y Rheolau Trefniadaeth Teulu. Roedd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'r astudiaeth hon yn cynnwys manylion yn ymwneud â'r canlynol:

- y cais – dyddiad cyflwyno, y gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt, awdurdod lleol yr ymgeisydd.
- yr ymgeisydd a'r ymatebwr – wythnos geni, rhywedd, ALF.
- y plentyn/plant dan sylw – wythnos geni, rhywedd, ALF.

Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD)

Mae Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD) yn darparu nodweddion demograffig pobl sydd wedi'u cofrestru gyda meddygfeydd teulu yng Nghymru. Defnyddiwyd hyn i ddarparu'r ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA fersiwn 2011) ar gyfer chwilio am fesurau amddifadedd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yw mesur amddifadedd swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd bach o Gymru. Defnyddiwyd fersiwn 2014 yr WIMD ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae pob ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA), a oedd yn cynnwys poblogaeth gyfartalog o 1,614 yng Nghymru a Lloegr yn 2011 (ONS 2012), yn cael ei graddio o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig). Yna, categoriwyd y graddfeydd WIMD yn bum grŵp cyfartal i gael cwintellau amddifadedd.

Prosesu data

O fewn data Cafcass Cymru, cyflawnwyd dad-ddyblygiad ar lefel cais. Cydgrynhowyd ceisiadau a wnaed ar yr un diwrnod gan yr un ymgeisydd/ymgeiswyr, yr un ymatebwr/ymatebwyr, ac yn ymwneud â'r un plentyn/plant, gan gyfuno'r holl wybodaeth ychwanegol, er enghraifft, lleoliad, y gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt, a'r canlyniadau cyfreithiol.

Trwy ddefnyddio ALF unigolion a'r WDS, pennwyd yr LSOA ar adeg y cais a, thrwy estyniad, y cwintel WIMD. I sefydlu'r cysylltiad rhwng unigolion o fewn ffynhonnell data Cafcass Cymru a'r WDS, defnyddiwyd cyfatebiaeth union neu gyfatebiaeth debygol â chanran o 50% neu fwy. Crynhoir y cyfraddau cysylltu isod.

Samplau a mesurau dadansoddol

Sefydlwyd dwy brif sampl ar gyfer yr astudiaeth hon: un i allu dadansoddi nifer y ceisiadau dros amser ac yn ôl ardal DFJ, a'r llall i broffilio'r unigolion a oedd yn ymwneud â cheisiadau 'rhieni safonol'.

Sampl a mesurau niferoedd

Yr uned dadansoddi ar gyfer y sampl hon oedd 'ardal-blwyddyn', a'r prif fesur oedd cyfradd y ceisiadau cyfraith teulu breifat. Dewiswyd ceisiadau os oeddent yn bodloni pob un o'r pum maen prawf canlynol: eu bod yn geisiadau agored neu gaeëdig; bod ganddynt ddyddiad cyflwyno dilys; bod ganddynt o leiaf un ymgeisydd, un ymatebwr ac un plentyn wedi'u cofnodi; y cofnodwyd eu bod yn ymgeisio am o leiaf un gorchymyn preifat; ac y gallai'r cais gael ei gysylltu ag un o'r tair ardal DFJ. Amlygwyd bod cyfanswm o 38,510 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno rhwng blynnyddoedd calendr 2007 a 2018, a bod 36,490 (94.7%) yn bodloni'r pum maen prawf, gan roi ein sampl ddethol i ni.

I greu'r uned sampl, cyfrifwyd nifer y ceisiadau fesul blwyddyn galendr ym mhob blwyddyn galendr o 2007 i 2018 ar gyfer pob un o'r tair ardal DFJ yng Nghymru. I bennu'r gyfradd diddordeb, defnyddiwyd y cyfrifiadau hyn fel rhifiadur, a defnyddiwyd nifer amcangyfrifedig yr aelwydydd ag o leiaf un plentyn ac un oedolyn ar 30 Mehefin bob blwyddyn fel enwadur h.y. aelwydydd teulu (Llywodraeth Cymru 2019).

Sampl a mesurau proffil

Yr uned dadansoddi ar gyfer y sampl hon oedd cais yn ymwneud ag un ymgeisydd ac un ymatebwr yn unig o'r ddau ryw h.y. ceisiadau 'rhieni safonol'. Roedd y mesurau diddordeb

yn ddisgrifyddion o'r rhai a oedd yn gysylltiedig a'r gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt. Dewiswyd ceisiadau i'w proffilio os oeddent yn bodloni pob un o'r pedwar maen prawf canlynol: bod y flwyddyn gyflwyno rhwng 2011 a 2018; eu bod yn cynnwys un ymgeisydd ac un ymatebwr yn unig; bod gan yr ymgeisydd a'r ymatebwr rywedd dilyn wedi'i gofnodi; a bod rhywedd yr ymgeisydd a'r ymatebwr yn wahanol. Cofnodwyd bod cyfanswm o 25,320 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno rhwng 2011 a 2018, yr oedd gan 22,830 (90.2%) ohonynt un ymgeisydd ac un ymatebwr, a bod 22,040 (87.0%) yn bodloni'r pedwar maen prawf, gan roi ein sampl ddethol i ni. Oherwydd y meini prawf a osodwyd a'r wybodaeth ychwanegol a oedd yn dangos bod bwlch oedran o lai na 15 mlynedd rhwng 95.9% o'r ymgeiswyr a'r ymatebwyr, penderfynwyd y byddem yn cyfeirio at y rheiny dan sylw fel 'rhieni'.

Crëwyd saw mesur i ddisgrifio'r rhai dan sylw a'r cais ei hun. O ran ymgeiswyr ac ymatebwyr, y rhain oedd: oedran yr ymgeisydd ar ddyddiad cyflwyno'r cais, oedran yr ymatebwr o gymharu ag oedran yr ymgeisydd h.y. bwlch oedran, a chwintel WIMD cysylltiedig LSOA breswyl yr ymgeisydd ar adeg y cais. Fel yr amlygir yn Nhabl A.1, o ganlyniad i'r cyfraddau cysylltu a'r cofnodion sydd ar gael yn WDSD, dim ond cyfran o'r sampl y gellid ei dadansoddi o ran nodweddion yn ymwneud ag LSOA a WIMD.

Tabl A.1: Crynodeb o gysylltiadau'r sampl

	Ymgeisydd		Ymatebwr		Plentyn ieuengaf	
Cyfanswm	22,040	(100.0%)	22,040	(100.0%)	22,040	(100.0%)
Cyfatebiaeth ALF	19,970	(90.6%)	19,340	(87.8%)	20,470	(92.8%)
LSOA wedi'i hamlygu	18,320	(83.1%)	18,140	(82.3%)	19,350	(87.8%)

Crynhowyd y plant a oedd yn destun pob cais trwy gyfrif sawl un oedd wedi'u cynnwys yn y cais a darparu disgrifyddion ar gyfer y plentyn ieuengaf: oedran; rhywedd; a chydaf phwy yr oedd yn byw ar adeg y cais. Pennwyd gyda phwy yr oedd plentyn yn byw trwy ei LSOA a ph'un a oedd honno'r un fath â LSOA yr ymgeisydd, yr ymatebwr, neu'r ddau, ai peidio.

Yn olaf, ar gyfer ymgeiswyr yn unig, crëwyd mesur 'dychwelyd i'r llys', a oedd yn crynhoi eu rolau (ymgeisydd neu ymatebwr) mewn ceisiadau cyfraith breifat o fewn y tair blynedd cyn dyddiad cyflwyno eu cais presennol.

Dull dadansoddol

Roedd y dadansoddiad o nifer y ceisiadau yn ystyried newidiadau dros amser yn genedlaethol ac yn ôl ardal DFJ. Modelwyd y duedd o ran cyfanswm nifer y ceisiadau a gyflwynwyd fesul blwyddyn yn genedlaethol gan ddefnyddio model llinol cyffredinol Poisson (GLM) wedi'i wrthbwyso gan nifer yr aelwydydd teulu (McCullagh a Nelder 1989). Roedd gan y model strwythur cydamrywiol a oedd yn rhoi cyfartaledd y berthynas linol rhwng cyfraddau cyn ac ar ôl 2014 gydag amser, yn ogystal â phwynt newid yn 2014. Roedd y model tuedd ar lefel ardal DFJ yn debyg o ran strwythur, ond roedd hefyd yn caniatáu effeithiau penodol i ardal DFJ. Ystyriwyd bod yr holl gyfernodau amcangyfrifedig â $p < 0.001$ yn arwyddocaol.

Roedd y dadansoddiad o'r ceisiadau rhieni safonol yn ystyried newidiadau blynyddol dros amser ar gyfer ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd ar wahân (Tabl A.2), yn ogystal ag yn

gyffredinol rhwng gwahaniaethau rhywedd ar gyfer pob disgrifydd (Tabl A.3). Cyfrifwyd canrannau yn seiliedig ar y data a oedd ar gael ar gyfer pob blwyddyn, ac anwybyddwyd data coll i bob pwrpas. Profwyd am gysylltiadau ag amser gan ddefnyddio'r prawf chi-sgwâr trefnol priodol, y penderfynwyd arno fesul newidyn; naill ai prawf chi-sgwâr cyffredinol Pearson neu'r prawf cysylltiad llinol-wrth-linol (Agresti 2002). Ystyriwyd bod pob prawf cysylltiad â $p < 0.001$ yn arwyddocaol.

Tabl A.2: Canlyniadau prawf chi-sgwâr ar gyfer cysylltiadau rhwng nodweddion ceisiadau ac amser – profwyd ceisiadau tadau a mamau ar wahân

Nodwedd	Ceisiadau gan famau		Ceisiadau gan dadau	
	Chi-sgwâr	Gwerth-p	Chi-sgwâr	Gwerth-p
Gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt ^a	3174.8	<0.001	9344.4	<0.001
Oedran yr ymgeisydd ^a	61.4	<0.001	150.4	<0.001
Bwlch oedran yr ymatebwr ^a	19.2	0.002	16.7	0.005
Cwintel WIMD yr ymgeisydd ^a	3.3	0.505	28.5	<0.001
Bwlch WIMD yr ymatebwr ^a	5.5	0.478	8.3	0.215
Nifer y plant ^a	1.2	0.752	5.4	0.144
Rhywedd y plentyn ieuengaf ^b	-1.7	0.093	-0.7	0.483
Oedran y plentyn ieuengaf ^a	16.8	0.001	26.3	<0.001
Preswylfa'r plentyn ieuengaf ^a	16.5	<0.001	38.1	<0.001
Ymgeisydd wedi ymwneud yn flaenorol ^b	1.0	0.3061	-1.1	0.2796

^a Prawf chi-sgwâr cyffredinol Pearson
^b Prawf cysylltiad llinol-wrth-linol

Tabl A.3: Canlyniadau prawf chi-sgwâr ar gyfer cysylltiadau rhwng nodweddion ceisiadau a rhywedd

Nodwedd	Chi-sgwâr	Gwerth-p
Gorchmynion yr ymgeisiwyd amdanynt	1703.5	<0.001
Oedran yr ymgeisydd	397.4	<0.001
Bwlch oedran yr ymatebwr	4,828.9	<0.001
Cwintel WIMD yr ymgeisydd	10.7	0.031
Bwlch WIMD yr ymatebwr	19.8	0.003
Nifer y plant	80.9	<0.001
Rhywedd y plentyn ieuengaf	5.5	0.019
Oedran y plentyn ieuengaf	87.8	<0.001
Preswylfa'r plentyn ieuengaf	6,629.5	<0.001

Proseswyd a dadansoddwyd y data gan ddefnyddio R v3.5.3 (Tîm Craidd R 2019), ynghyd â pheccynau tidyverse v1.2.1 (Wickham et al. 2019) a 'coin' (Hothorn et al. 2008).

Cymeradwyaeth llywodraethu gwybodaeth a rheoli datgelu ystadegol

Adolygwyd y cynnig ar gyfer y prosiect gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth Annibynnol (IGRP) SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r panel hwn yn sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu gwybodaeth ac yn cynrychioli defnydd priodol o ddata er budd y cyhoedd. Mae'r IGRP yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff proffesiynol a rheoleiddiol, darparwyr data a'r cyhoedd. Rhoddodd yr IGRP gymeradwyaeth i'r prosiect o dan rif prosiect 0990 SAIL. Cymeradwyodd Cafcass Cymru ddefnyddio eu data ar gyfer y prosiect hwn. Ystyriodd yr asiantaeth werth yr astudiaeth i'r cyhoedd, y buddion i'r asiantaeth ei hun, yn ogystal â safonau cyffredinol ar gyfer defnyddio data gweinyddol yn ddiogel.

Mae gan SAIL brosesau a pholisïau llym ynglŷn â datgelu ystadegol i atal y posibilrwydd o ddatgelu data am unrhyw unigolyn. Mae hyn yn cynnwys cuddio gwybodaeth mewn tablau lle mae'r niferoedd yn fach neu lle y gallai nodweddion daearyddol ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw naill ai'n unigol neu ar y cyd â data arall. Lle'r oedd y niferoedd yn fwy na sero ond yn llai na deg, fe'u cuddiwyd. Cyfrifwyd canrannau ar gyfer cyfrifiadau a oedd ar gael yn unig. Adroddwyd yr holl gyfrifiadau a oedd ar gael i'r deg agosaf, gan gynnwys cyfansymiau. Adroddir pob canran i un lle degol.